

ECO'R WYDDFA

RHIF 44

IONAWR 1980

Pris: 12c

DIWRNOD PWYSIG YN Y NANT

Maen nhw'n dweud i mi fod pobol dduon yn yr Affrica yn gwledda, gloddesta a dawnsio am ddyddiau i dalu teyrnged i dduw'r haul.

Fyddwn ni, drigolion Nant Peris yn nhroed yr Wyddfa, ddim yn gwneud hynny yn hollol, ond y mae gennym un diwrnod arbennig yn y flwyddyn pan fo pawb yn edrych ymlaen at weld yr haul.

Y dyddiad pwysig hwnnw yw Ionawr 13, sef dydd Mercher nesaf. Am chwe wythnos hir cyn y 13, nid yw pelydrau'r haul yn cyffwrdd â'r pentref. Y rheswm am hyn yw fod y 'Grib Goch' a'r Wyddfa yn rhwystro iddo wenu arnom. Byddwn yn edrych yn hiraethus iawn arno'n dod i lawr yn araf o ris i ris ar lethrau'r 'Elidir', 'Y Garn' a'r 'Glyder'. Daw heibio'r 'Ceunant' a'r 'Fron' i lawr at 'Tŷ Isaf', ond cyn cyffwrdd â'r pentref mae'n troi yn ei ôl a dringo i

gopaon 'Y Garn' a'r 'Glyder' ac o'r golwg.

Pob blwyddyn ar y 13 o Ionawr gwelwn yr haul yn agosáu fel pob diwrnod gaeafol clir arall, ond y tro yma nid yw'n troi'n ôl o Tŷ Isaf ... Mae'n cario ymlaen ac yn tywynnu ar groes fach ar dŵr yr eglwys ... dim ond am ryw ddau funud cyn cychwyn yn ôl ar ei hynt i gopaon y mynyddoedd uchel.

Er mai ond prin ddau funud yr arhosa'r haul ar dŵr Eglwys hynafol Sant Peris, mae'r diwrnod pwysig hwn o Ionawr yn rhoi gobaith i drigolion y Nant - gobaith fod dyddiau heulog hir yr haf yn agosáu a thywyllwch duaf y gaeaf wedi mynd - ninnau fel paganiaid Affrica yn llawenhau a gorfoleddu ... a bron yn addoli'r haul.

(J. Ellis (Perisfab). Darlledwyd ar 'Rhwing Gŵyl a Gwaith'.



Nant Peris yng ngrafangau'r Gaeaf 1978-79 Sylwch ar linell yr haul ar ochr y Glyder!

Y CASGLU PAPUR YN DOD I BEN

Yn nechrau Ionawr bydd gwaith cymdeithasol pwysig iawn yn ardal Llanrug yn dod i ben.

Ers tair blynedd bellach bu nifer o bentrefwyr yn storio eu papurau newydd a'r cardfwrdd ac yn eu rhoi y tu allan i'w drysau ar fore Sadwrn cyntaf bob mis. Yna deuai dyrnoid o wirfoddolwyr o amgylch yn eu ceir i'w casglu a'u cludo i hen stabl leol. Yno byddai rhai eraill yn eu pacio a'u storio. Pan fyddai digon o bapur wedi ei storio deuai lori i'w gludo i Groesoswallt ac yno byddai yn cael ei ail brosesu.

Pwrpas hyn i gyd oedd codi arian ar gyfer creu cae chwarae ym Mhwl Moelyn. Casglwyd tua 33 o dunelli o hen bapur yn ystod y tair blynedd a daeth hyn a £393 i'r gronfa.

Ond mae agwedd arall i'w hystyried ar wahân i'r un ariannol. Drwy'r ail brosesu'r holl bapur a gasglwyd yn ardal Llanrug arbedwyd tua 200 o goed.

Mae'r ystyriaeth hon yn un bwysig iawn mewn amser pan mae adnoddau naturiol fel coed yn prinhaus. Gresyn na fyddai'n bosibl, a phobl bellach wedi magu arferiad o arbed hen bapur, i barhau'r gyda'r gwaith.

Un o'r prif resymau pam na ellir parhau gyda'r gwaith da yn ardal Llanrug yw na fydd lle ar gael i'w storio o fis Ionawr ymlaen.

Dymuna trefnydd yr ymgyrch gasglu papur, Hefin Jones, Pant Mwyn, ddatgan ei ddiolch i bawb a fu'n gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant ac i'r holl drigolion hynny am eu cefnogaeth i'r fenter.

Os oes unrhyw fudiad neu glwb eisiau defnyddio y dull hwn o gasglu arian yna mae Hefin yn berffaith barod i'w rhoi ar ben ffordd. Cysylltwch â Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Holl Ddarllenwyr yr Eco

STORIAU ARSWYD

Beth am neilltuo rhyw gornel o'r Eco dros fisoedd y gaeaf 'ma i gynnwys storiâu arswyd sy'n gysylltiedig â'r fro yma? Os oes gennych stori ysbryd neu arswyd cysylltwch â'r Golygydd Erthyglau, Gŵen y Wawr, Llanrug, neu ffonio Caernarfon 3719.

Er mwyn cael cychwyn ar y 'Gornel Arswyd' dyma dameidiau i brofi. Mae ym meddiant ffotograffydd yr Eco y llun yma. Llun a dynnwyd gan

gamera poleroid mewn stabl arbennig ar Ynys Môn ond am resymau ni chawn ddatgelu ymhle. Sylwch yn fanwl ar y llun - welwch chi lun neu siâp merch mewn gwisg hen ffasiwn ac yn magu baban yn ei breichiau? Ai llun o ysbryd ydyw?

I'ch dychryn chi ymhellach trowch i'r dudalen ganol am un o straeon arswyd buddugol Eisteddfod Llanrug eleni - stori Y Chwiban Olaf gan Dafydd Whiteside Thomas.



CYNLLWYN DINORWIG STORI ARSWYD ARALL?



CAFWYD trwy law brawd-ddraenog ym mhencadlys Westinghouse Corporation ychydig mwy o wybodaeth am gynllwynion dirgel y llywodraeth ynglŷn â'r dyfodol niwcliar sy'n cael ei baratoi ar gyfer Gwynedd. Eisoes, yn gudd yng nghrombil yr Elidir mae'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan wedi dechrau gosod y 'switching gear' ar gyfer trydedd Atomfa Gwynedd. Yn ôl chwaer-ddraenoges yn Whitehall, sy'n mentro i'n rhybuddio o'r peryglon, yng nghyffiniau Edern y codir yr atomfa a fydd yn gymar i storfa bwmp Dinorwig. Pa fath o Atomfa? Nid y math sy'n Nhrawsfynydd a'r Wylfa ond, yn ôl pob tebyg, y P.W.R., y math peryclach a ddaeth o fewn trwch blewyn i achosi trychineb enfawr yn Harrisburg yn yr Unol Daleithiau.

Tros y byd i gyd mae gwyddonwyr cydwybodol yn ceisio ein rhybuddio o beryglon yr economi Plwtoniwm ond mae llywodraeth y cyfalafwyr yng ngwledydd Prydain, dan arweiniad y 'Plwtoniwm blonde' yn gyrru ymlaen yn gibddall i gynhyrchu mwy o arfau ac atomfeydd niwcliar. Maent yn cau'r pyllau glo a'r pwerdai glo yn y De ac yn paratoi'n gyfrinachol i ddefnyddio tir Gwynedd i gladdu sbwriel Plwtoniwm a chodi atomfeydd peryclach. Mrs Thatcher, fach, mae mwy a mwy o bobl yn dod i weld drwy'r drefn; fe ddaw dydd, dim ond gobeithio y daw cyn i chi a'ch Plwtoniwm ein difetha i gyd.

ECO'R WYDDFA

RHIF 44 IONAWR 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
ffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Brynegrwys,
Penisrwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisrwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Wauwfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (Caer-
narfon 3776).

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST :
Mrs. M. Evans, "Lloc", Llanrug.
(C'fon 3 227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Wauwfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Wau-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price,
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)

DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Y RHIFYN NESAF

Allan:
IONAWR 31
Deunydd i law
y Golygyddion perthnasol
IONAWR 23

LLYTHYRAU

CASETIAU SYCHARTH

Yng nghanol y môr o fwsig sydd
bron â'n boddi y dyddiau yma,
mae'n dda cofio nad canu ydy
popeth hyd yn oed yng Ngwlad y
Gân!

Y mae gennym, fel Cymry,
glust at eiriau hefyd a chyflwyno
siaradwyr Cymru, mewn
sgyrsiau a phregethau,
darlithoedd a dramodau,
adroddiadau a darlenniadau o
lyfrau ydyd bwriad CASETIAU
SYCHARTH.

Cyfrifwn bob math o ddefnydd
sy'n ddiddorol a difyr i glustiau'r
werin yn faes inni a bwriadwn
gyflwyno'r siaradwyr hynny y
mae'n hawdd i wrando arnyn
nhw, ta beth y byddan nhw'n
sgwrsio amdano. Bydd y
casetiau'n para am awr i awr a
hanner yr un ond er hynny fe'u
cynigir am y pris arferol, sef
£3.95.

Dyma'r pump casét cyntaf:

1. IDWAL JONES. Pregeth ar
weithredoedd Duw. Sgyrsiau:
Cofio hen ffrind. Bwganod. Tric
Satan.

ROBIN WILLIAMS. Yn dynwared
rhobi o wŷr adnabyddus ddoe a
heddiw.

3. IDWAL JONES. Pregeth 'Twm
Bach'. Sgwrs am Yr Hoelion
Wyth.

4. ROBIN WILLIAMS. Dwy
bregeth.

5. JOHN ALUN ROBERTS.
Hiwmor y Chwarelwyr.

Bydd rhagor yn dilyn ar fyrder,
gan gynnwys darlenniadau
dramatig i blant, megis o Lyfrau'r
Llewod.

Casetiau Sycharth,
Tan-y-graig,
Llanrwt,
Gwynedd.

Annwyl Olygydd,
Hoffwn drwy gyfrwng eich
colofnau dynnu sylw at
gystadlaethau llyfrau Cymraeg
Pwyllgor Addysg Gwynedd am
1979-80:

1. Llyfrau darllen yn cynnwys
gwybodaeth fathemategol
ddiddorol ar gyfer plant 8-11
oed. Beirniad: Dafydd Morris
Jones. Gwobr: £100.

Y Trefnydd Hysbysebion

Peidiwch da chi â'n condemnio
fel bwrdd golygyddol Eco'r
Wyddfa am gynnwys cymaint o
hysbysebion yn y ddau rifyn yma
cyn y Nadolig. Wyddoch chi -
heb gefnogaeth gwŷr a
gwragedd busnesau'r fro - ni
fyddai pris yr Eco'n ddwbl yr hyn
ydio! Mae ein dyled i'r cyfeillion
hyn yn fawr. Mae gan bob papur
bro ei ffordd ei hun o godi arian i
gynnal y costau cynhyrchu. Yn
syml iawn - ffordd Eco'r Wyddfa
yw cael pentwr o hysbysebion
tua'r Nadolig. Y gŵr sydd wedi
treulio oriau maith yn casglu a
llunio'r hysbysebion yw John
Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug. Os byddwch angen
cysylltu ag o rydwro ei rif ffôn yw
Caernarfon 5605.

2. Nofel yn seiliedig ar un o'r
chwedlau neu ramantau
Cymraeg yn null Susan Cooper
neu Alan Garner, ar gyfer plant
11-15 oed. Beirniad: Branwen
Jarvis. Gwobr £125.

3. Unrhyw lyfr, neu gyfuniad o
lyfryn a deunydd dysgu, ar gyfer
plant, na ellir eu hanfon i unrhyw
un arall o gystadlaethau 1979-80.
Rhaid i'r gwaith fod yn gyfryw fel
bo modd ei gyhoeddi. Beirniad:
W. Carol Hughes. Gwobr: i fyny
at £100 yn ôl natur y gwaith.

Dylid anfon y teipysgrifau
erbyn Mai 31, 1980 at: Y
Cyfarwyddwr Addysg, Swyddfa
Addysg Gwynedd, Heol y Castell,
Caernarfon.

Mae cystadlaethau cyffelyb
gan rai siroedd eraill hefyd yn
ogystal â chystadleuaeth nofel y
Cydbwyllgor Addysg. Gellir cael
y manylion llawn o anfon at Yr
Ysgrifennydd, Cydbwyllgor
Addysg Cymru, 245 Western
Avenue, Caerdydd.

Mae yma ddigon o waith i lu
mawr o sgrifenyddwyr - a digon o
fylchau i'w llenwi. Hai ati felly!
Yn gywir iawn,

Dafydd Orwig
(Cadeirydd Panel Llyfrau
Cymraeg
Awdurdod Addysg Gwynedd)

Cilcavan
5 Stad Coetmor,
Bethesda
Bangor.

Annwyl Olygydd,

Hoffwn gyfeirio at eich Golygydd
Chwaraeon, Dafydd Evans, a charwn
iddo gael addysg ddaearyddol er mwyn
iddo sylweddoli fod Llanberis ym mro
'Eco'r Wyddfa', ynghyd â Llanrug.

Mae cefnogwyr club pêl-droed
Llanberis wedi bod yn amyneddgar
iawn yn prynu'r 'Eco', ac yn darllen
erthyglau'r golygydd "coch a gwyn"
yma. Fel y gofynnodd gohebydd lleol y
'Cymro', "Beth fydd gan Dafydd
Evans i'w ysgrifennu amdano os bydd
timau bro'r 'Eco' yn colli?" Os mai
atebiad Dafydd Evans ydyw'r erthygl,
ple mae'n cyfeirio at, ac yn ceisio nodi
rhesymau pam fod club pêl-droed
Llanrug yn aflwyddiannus y tymor
hwn, nid oes raid cymryd hanner
tudalen i chwilio am resymau, - 'does
yna ond un rheswm, - colli maent.

Tybed a fuaasai'n weddus i'r
golygydd hwn roddi ychydig o bwyslais



John Roberts, Trefnydd
Hysbysebion Eco'r Wyddfa.

ar y ffaith fod club Llanberis - o fro
'Eco'r Wyddfa' - wedi chwarae 12
gêm yn y gynghrair, ac heb golli'r un,
hyd yn hyn. Ond wrth gws, fel mae'r
golygydd hwn yn dweud, bob tro mae
Llanberis yn curo "gemau harwd"
ydynt i gyd.

Dafydd Evans, cymerwch gyngor yn
garedig, a rhoddwch glod i'r ddau dîm
sydd yn y fro, pan yn eu haeddu. Yn
hytrach na rhoi eich pres ar Lanberis i
guro'r gynghrair, rhoiwch eich 'biro'
armynt weithiau.

Ceiswch fod yn olygydd ac nid yn
'supporter'.

Cefnogwr pêl-droed bro'r Eco.

Y PANTOMEIM

Bydd llawer o blant y fro yn
heidio i Theatr Gwynedd Bangor
eleni eto i weld Pantomeim
Theatr Cymru. Ond wyddoch chi
mai merch o fro'r Eco
ysgrifennodd y sgript sylfaenol?

Ysgrifennwyd sgript sylfaenol
y pantomeim gan enw newydd.
Daw Ann Llwyd Elis Jones o
Llanrug, gweithia gyda Mudiad
Ysgolion Meithrin, ac mae'n
ferch i'r diweddar Huw Lloyd
Edwards. Mae 'Mwstwr yn y
clwstwr' yn seiliedig ar y ddrama
a enillodd iddi wobr Cymdeithas
Theatr Cymru yn Eisteddfod
Genedlaethol Caernarfon.
Derbyniodd yr awdures a'r
ddrama glod uchel y beirniad,
Wilbert Lloyd Roberts, am ei bod
yn "ymarferol a llawn
dychymyg" a defnyddiai'r
llwyfan ac adnoddau theatrig yn
effeithiol a diddorol. Ni chollir yr
elfennau hyn yn yr addasiad, a
chyda seiniau ac effeithiau
arbennig sy'n gysylltiedig â'r
gofod bydd 'Mwstwr yn y
Clwstwr yn bantomeim lliwgar a
llawn digwydd.

LLYFRAU

Pedwar llyfr newydd a ddaeth i
law y golygydd cyn y Nadolig
yma.

'Datod Cwlwm ac Ysgirfau Eraill'
- Edward Jones. Pris: £1.25.

'Dyfalw ac Ysgirfau Eraill' -
Mathonwy Hughes. Pris: £1.50

'Creifion' - Mathonwy Hughes -
Pris: £1.50

Y tri uchod wedi eu cyhoeddi
gan Lyfrau'r Faner, y Bala.

Dyn y Mynai - Wil Sam. Pris £1.40

Oherwydd diffyg gofod ni
allwn ond nodi'r llyfrau uchod
cyn y Nadolig.

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

CWM-Y-GLO

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd gwasanaeth Carolau Undeb y Mamau yn ysgol Cwm-y-glo o dan arweiniad y rheithor. Miss Ceridwen Hughes oedd yr organydd. Darllenwyd y llithoedd gan Mrs J.E. Watkins, Dolwen, Mrs. Orritt, Moranedd, Mrs H. Roberts, Bodgwynedd, Mrs D.G. Williams y Rheithor y chan y rheithor. Cyhoeddwyd y carolau gan Mrs T. Owen, Isfryn. Darparwyd y te a'r lluniaeth gan Mrs J.E. Watkins a Mrs Chick a diolchwyd iddynt gan Mrs Owen, Isfryn a Mrs Higgins, Bron Eryri.

GWASANAETHAU'R NADOLIG – Bydd pasiant y plant nos Sul, Rhagfyr 23 am 6.00 pm a bydd gweinyddiad o'r Cymun Bendigaidd ar fore dydd Nadolig am 9.00 am, yn Eglwys Sant Gabriel.

MERCHED Y WAWR – Mr Derek Rees o Gaernarfon oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod Tachwedd o'r gangen leol. Ei destun oedd 'Trin Gwallt', a Miss Ruth Manon Jones, Meillionen, oedd y ferch ieuanc Iwclus a gafodd ei dewis yn fodel iddo.

Cadeirydd y noson oedd Mrs Hannah Jones, Tawel Lan, a'r gwestwagedd oedd Mrs M. Chick. Mairlys, a Mrs K. Watkins, Dolwen. Hwy hefyd roddodd wobwr y raffl a enillwyd gan Miss Mat Pritchard.

Pleser oedd cael croesawu tair aelod newydd i'n plith, sef Mrs Jean Hughes, Mrs Hilda Orritt a Mrs Gwyneth Roberts.

Diolchwyd i Mr Rees, a'r gwestwagedd gan Miss E. Hughes. Tan-y-graig.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd adroddiad manwl o'r Pwyllgor Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar.

SWPER NADOLIG – Nos Sadwrn, Rhagfyr 8, aeth aelodau'r gangen a'u cyfeillion i Blas Maenan yn Nyffryn Conwy i ginio Nadolig. Yr oedd yn hyfryd o beth cael cinio mewn awyrgylch mor gwbl Gymreig, a mwynhau Noson Lawen draddodiadol. Fe ddiolchodd y llywydd, Miss Lowri Prys Williams i Mrs Iris Rowlands a Miss Mair Rowlands am eu trafferth yn trefnu noson mor bleserus ar ein cyfer.

Mae yn dda gennym gael croesawu Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd adref ar ôl ysbaid yn yr ysbty. Hefyd croeso yn ôl i Mrs Margaret Williams, Nant Forgan ar ôl ei damwain yn ddiweddar.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r gangen yn yr ysgol gynradd ar yr 16 o Ionawr gyda Mrs Rhiannon James Jones yn rhoi sgwrs ar 'Wyddor Tŷ'.

YR URDD – Adran Cwm-y-glo a Brynrefail. Mwynhaodd y plant 'Dawnsio Gwerin' yng nghwmni difyr Mr Len Jones, Penisarwaun. Credir bod y rhieni wedi mwynhau'r dawnsio cystal â'r plant.

Cynhaliwyd pwyllgor o'r Urdd i drefnu rhaglen erbyn y tymor nesaf. Ar Ionawr 10 bydd y Trefnydd, Mr Dafydd Owen yn dangos ail ran y ffilm ar weithgaredd yr Urdd. Yna bydd rhaglen arwyddol gan gynnwys Disgo i aelodau'r Urdd yn y pentref. Penodwyd Mr G. Hefin Jones i gynrychioli'r Urdd ar Bwyllgor y Ganolfan.

NOSON GOFFI – Cynhaliwyd y Noson yn yr ysgol er budd clwb pêl-droed Cwm-y-glo, nos Lun, Rhagfyr 10. Cafwyd elw o £156.000. Diolchwn yn fawr iawn i bawb a weithiodd mor gael i wneud y noson mor llwyddiannus a hefyd i drigolion a phlant y pentref am eu cefnogaeth hael. Fe enillwyd gwobrwyon y raffl gan: Beic: Elwyn Evans, Pant Buarth, Brynrefail. Bocs

o nwyddau: Mair Griffith, Fferm Treborth, Bangor. Potel o Gin: Russell Rowlands, Rallt Goch, Cwm-y-glo. Cas Gobennydd: Eifion Jones, Hafodty, Cwm-y-glo. Bocs siocled: Frank Kennedy, Clwb Ceidwadol, Caernarfon. Tun Bisgedi: 1. Alison Jones, Arosfa, Fron Gader, Cwm-y-glo, 2. Gary Jones, Cae Coch, Brynrefail. Panda: Ann o ffatri Glyn, Llanberis. Enwi'r tedi: Diolch i Miss Owen, Fron Heulog am roi enw 'Rashws' arno – chafodd neb mohono yn gywir, ond fe'i tynnwyd ar raffl ac fe'i henillwyd gan Gethin Jones, Min-y-don, Cwm-y-glo. Sgôr uchaf wrth daflu cylchoedd: Fe aeth dau â hi – Dewi Morris, Merddyn, Ceunant a Neil Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-glo. Teisen mewn cae: Mrs M.E. Hughes, Craig y Don, Cwm-y-glo. Faint o Nionod Picl: Dafydd Price, Tan y Graig, Cwm-y-glo. Bocs 'Pince's Almonds': Dylan Morris, New St, Cwm-y-glo, 2. Barry Hughes, 10 Dolafon, Cwm-y-glo.

PÊL-DROED – Cwpan Ferodo o dan 15 – Sadwrn 1 Rhagfyr. Mountain Rangers 5: Cwm-y-glo 3. Sgoriwyd gan Dilwyn Morris (2) a Nigel Orritt.

Sadwrn 8 o Ragfyr. Cwm-y-glo 4: Mountain Rangers 5. Wyn Sinclair, Dilwyn Morris, Kevin Wyn Owen a Nigel Orritt yn rhwydo dros Cwm.

PWYLLGOR CARNIFAL – Nos lau, Rhagfyr 6, cynhaliwyd Pwyllgor Carnifal. Fe benderfynwyd cynnal Carnifal yn ystod yr haf – o bosib y bydd y gweithgareddau yn cael eu cynnal o amgylch yr ysgol.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf fe roddwyd swm o £2000.000 ddwywaith tuag at gyfraniad Cwm-y-glo i addasu'r ganolfan.

Eleni y mae'r pwyllgor carnifal am roddi £100 i gronfa Pwyllgor Rheoli y Ganolfan, a £25 yr un i Eglwys St Gabriel a chapel Tabernacl.

Fe fydd y Pwyllgor nesaf nos lau, Ionawr 3, yn yr ysgol am hanner awr wedi saith, pryd y bydd croeso i'r aelodau newydd ymuno.

'Roedd Lloyd a Tom'n pendroni, A dwrdio'n ddigon dig. Sut clown ni ddrws y popty I flasur tamaid cig?

Er gwaethaf eu hymgeision, Dim bachu wnâi y clo; 'Roedd rhaid cael rhywun yno, Ond – neb o Gwm-y-glo. Daeth John – Hen gelfi heibio A chlepr i'r drws ar gau; Yr ateb syml ydoedd Dim deall 'roedd y ddau.

Y Frân Ddu

DIOLCH

Diolch i'r canlynol am eu rhodd tuag at gynnal costau cynhyrchu'r Eco.

£1 Mr a Mrs G. Jones, 24 Cremlyn, Bethel.

£1Di-enw; Mr. W.J. Jones, Prestatyn, Clwyd; Mr Moi Parry, Peterborough, Canada.

£3 – Di-enw, Deiniolen; £2 – Di-enw, Deiniolen.



Agor

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ffiniau'r Gorffennol

GWAU HOSANAU

Dois ar draws beirniadaeth ar wau hosanau mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod Welsleaid Blaenau Ffestiniog Mai 1896. Enw'r beirniad oedd Jacob Jones, Ffatrwr, Tanygrisiau. Y mae'r feirniadaeth werth ei chadw gan fod cystadleuaeth gwau hosanau cartref wedi mynd o'r ffasiwn. Y mae'r nifer a gystadlodd a'r ffugenwau yn tystio i ddiwydrwydd a medr merched yr hen oes. Dyma'r feirniadaeth:

"Daeth i'm llaw bedwar pâr-ar-bymtheg yn dwyn yr enwau Robert Unicorn Terrace; Julia Lisabela; Mair Manod; Esyllt Meirion; Dorcas; Gwen; Un yn dechrau; Peidiwch a dychryn; Ceridwen; Gwenfron No 4; Un o Ferched y Brython; Dwyndy; Olwen; Dorcas; Mair; Harriet; Ethel; Ceridwen; Cymraes No 19.

"Mae hosanau Robert Unicorn Terrace; Julia Lisabella; Mair Manod; Esyllt Meirion; Dorcas a Gwen rhy fychain i'w hanfon i gystadleuaeth i ddyn, am nad ydynt yn ffitio neb ond y dynion lleiaf neu blant go fawr.

"Mae'r holl hosanau yn dangos medr a gallu, a heb wenieithio i neb maent yn un o'r lotiau gorau at ei gilydd y buom yn eu chwilio erioed, ac eto mae da, gwell a gora yn bod gyda hosanau fel pethau eraill. Gan fod beirniadaeth wedi ei hysgrifennu gyda phob pâr, ni wna' ond dweud mai Cymraes No 19 ydyw yr orau. Bydd yr holl hosanau i'w cael gan yr ysgrifennydd. Mae'r enw arnynt wedi ei roddi y tu allan i'r papur, a'r cwbl wedi eu lapio yn barod i'w perchnogion.

Cymraes No 19

Meddai Jacob Jones ar hon: "Eich dylifad uchel o 36 ar y gweill, sef 144 o bwythau a gweud clos a'i chadw yn llungar (siâp da) a gadwdd eich pen i fyny y tro hwn. Yr oedd Ethel a Cheridwen ar eich sodlau, a dihangfa gyfyng a gawsoch. Er mor dda oedd y lleill i gyd yr wyf yn sicr yn fy meddwl mai chwi sydd wedi dangos y gallu mwyafr i gymryd poen i wneud pâr da, ac felly yn dyfarnu y wobwr heb betrusder i Cymraes No 19."

Ceridwen

Dyma'r feirniadaeth i Ceridwen: "Anaml y byddaf yn gweled cystal pâr â hwn. Yn dda yn ei ddefnydd a'i weu a'i siapio. Yr wyf yn lecio ei ribs yn well na'r

un arall. Yr unig beth y mae Cymraes yn rhagori arnoch ydyw, mae wedi dylifo 36 ar bob gwiallen i lai o le o hanner modfedd nag yr ydych chiwi wedi gwneud, sef dylifo 35 ar 4 gwiallen, ac fe ddylai llafur gael ei gydnabod gyda gweill fel pethau eraill. Mae'n wir ddrwg gennyf na buasai ail wobwr i chwi. Ewch ymlaen: nid peth hawdd ydyw eich gorchfygu."

Ethel

"Dyma bâr na welir ei gystal ond yn anaml iawn. Edafedd da, gweud clos, siapio da iawn. Yr unig beth sydd yn troi y fantol o blaid Cymraes No 19 ydyw ei bod wedi dylifo 3 pwyth ar bob gwiallen i'r un faint o le yn ychwaneg na chwi."

Mair

"Mae gennych bâr da. Buaswn yn cynnig i chwi weu nêl bob dau o detha a dau chwithig yn lle tri chwarter nêl, a dylifo dau bwyth ar bob gwiallen yn ychwaneg, a gwneud y groth fodfedd yn is i lawr. Mae'r sawdl wedi ei wneud yn dda iawn."

Dorcas 79 oed

"Pâr o wead clws a gwastad. Siapio da iawn. Gwelais rai yn gweu yn glosiach nag ydych chiwi wedi gweu hwn. Buaswn yn fodlon i chwi gael y wobwr oni bae eich bod wedi colli pwythau yn un hosan."

Dorcas

"Pâr clws ond ei fod rhy fychan. Mae'r groth yn isel. Buasai yn well ychydig yn uwch. Mae'r edafedd yn dda a'r sawdl yn dda iawn. Mae'r troed yn well na'r goes."

Eisteddfod yr Ieir

Bu cystadleuaeth i ieir yn Silverton Dyfneint ryw gan mlynedd yn ôl. Y gamp oedd am y gorau glegar. Ymgeisiodd chwech. Bu'r ieir yn clegar ar eu gorau nes byddaru pawb. Dyfarnwyd y wobwr gyntaf i'r iâr a fedrodd glegar hanner cant o weithiau mewn chwarter awr.

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH

Teganau

YN SIOP

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS



**CYFARCHION
NADOLIG
O
LLANRUG**



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd

parod i'w bwyta.

Archebion ar gyfer

y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

A DEWCH ATOM NI!

**NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth**

**R&V
JONES**

SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4472

**PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD**

CYFARCHION Y TYMOR

A

DYMUNIADAU GORAU AM 1980

oddi wrth

NEIL, IRIS a TONY

y Siop Sglodion

**Pontrhythallt
Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

CYFARCHION Y TYMOR

ODDI WRTH

**GLYN
ROBERTS
a'r Mab**

DYNION GLO A CHLUDWYR
LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2125 a 5043

Mi'ch cadwn ni chi'n gynnes dros yr ŵyl!



**Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd
Dda**



oddi wrth

STUART & JANET

DAVID, MARK, TONY & NIGEL

**SNOWDON GARAGE
LLANRUG**

Ffôn: CAERNARFON 3056



YR ARBENIGWYR AR ATGYWEIRIO MECANYDDOL
A THRWSIO WEDI DAMWAIN.
GWASANAETH 24 AWR – GORSAF M.O.T

Dymuna
holl
Staff

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

Nadolig

Llawen

a

Blwyddyn


Newydd

Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB —
Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars,
Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd
— RHYWBETH I BAWB!



FE'CH SICRHAWN CHI
Y CEWCH EIN GWASANAETH
SIRIOL A'R BARGEINION
ARFEROL TRWY GYDOL
1980



Mae
DAVID a CAROL
tenantiaid newydd

**GWESTY'R
RHYTHALLT
Llanrug**

yn dymuno
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen
a newydd

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

**SIOP a MODURDY
GROESLON MARC
LLAN (fihangel-yn-y-g) RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth
Peter a Muriel
GWESTY

**Glyntwrog
Llanrug**

Diolch yn fawr am
eich cefnogaeth trwy
gydol y flwyddyn

Bydd yr estyniad newydd
yn barod cyn bo hir!

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
BERYL a GWEN

**LLYTHYRDY
LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 2422

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

**R. Hughes Jones
a'r Mab**

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188




Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SIOP
DRIN GWALLT

**ALWYN
WILLIAMS**

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
Ff) Caernarfon 2023

**CYFARCHION
NADOLIG
O
LLANRUG**



Dymuna

H.W.Owen
Dyn Glo a Chludwr
LLANRUG
Ffôn Caernarfon 4426

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll

**GELLWCH
YMDDIRIED
YN**

**JOHN
TREVOR**

**Garej Hafod
Llanrug**

**am geir newydd
ac ail law rhagorol**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth

W.J.GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

*Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.*

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth bawb yn

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd
ar gyfer y Nadolig

Simneiau glân am bris rhesymol gan



*Defnyddir
peiriant sugno i lanhau*

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Cyfarchion y Tymor i chwi oll!
Ffôn: Caernarfon 4781

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN :
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa

Am bresant Nadolig sy'n para trwy
gydol y flwyddyn –
dowch i weld ein

Ceginau, Ladylove a Flair; Baddonau (stoc anferth);
Gratiau (am brisiau gostyngol); Paent; Papur Papuro;
Cushionfloor a Drysau 'Spacesaver' Marley
ac Anghenion Adeiladu – tywod, sment, landeri, ffitiadau
plymio
ac ati a Chymorthion D.I.Y.

A. Winstanley

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF **LLANRUG**

DEINIOLLEN

LLWYDDIANT – Daeth Alwena Bryn Morris, Cefn Coch yn gyntaf yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ac yn ail yn Eisteddfod Llanaelhaearn ar ganu'r piano yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau iti Alwena.

Dymuna Alwena ddiolch yn fawr i'w hathro cerdd, sef Mr Griffith, Caer Bythod.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen yn Ystafell y Seindorf nos Lun, Rhagfyr 10, pryd y penderfynwyd rhoi rhodd o £15 i Gymdeithas Tai Gwynedd tuag at adnewyddu 8 Tai Gweledfa, cartref H.R. Jones, un o sylfaenwyr y Blaid.

Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr (sylwch ar y cysylltiad teuluol rhwng yr enillwyr) – £50 – rhif 27, Mr Iorwerth Roberts, 8 Hafod Olau; £25: rhif 28 Mrs Let Roberts, 8 Hafod Olau; £10: rhif 91, Mrs Annie Williams, Isfryn; rhif 138, Tommy Parry, Bro Dawel; rhif 35, Idwal Jones, Tŷ Capel Libanus; £5: rhif 55, Betty Hughes, Cryngae; rhif 40, Irfon Morris, 1 Tai Dinorwig; rhif 72, Katie Jones, 3 Tai Gweledfa; rhif 73, Ieuan Morris, 92 Pentre Helen.

LLONGYFARCHIADAU – i Ian Peter Williams, 10 Tai Marian ar lwyddo yn ei arholiad piano gradd 5 (Ysgol Gerdd Frenhinol). Disgybl i Mr G. Peleg Williams, Caernarfon ydyw.

DIOLCH – Dymuna Mrs Nancy Marian Williams, 10 Tai Marian ddiolch i'r cyfeillion a fu'n garedig wrthi yn ystod ei harhosiad yn ddiweddar yn ysbytai Môn ac Arfon a Clatterbridge, i'r meddygon a nyrsus yn y ddau ysbyty, ac hefyd i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau a rhoddion a dderbyniodd, ac hefyd i bawb a fu yn ymweld â hi. Mae hi'n ddiolch i bawb am fod mor ffyddlon iddi.

MARW – Dydd Mawrth, Rhagfyr 4 wedi cystudd maith, bu farw Mrs Margaret Taylor yn ei chartref, Gerlan, Clwt-y-bont. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Ysgoldy gyda'r Parch. Stanley H. Williams yn gwasanaethu. Mr John Griffith oedd wrth yr organ. Rhoddwyd gweddillion Mrs Taylor i orffwys ym mynwent Macpela. Dymuna'r teulu gydnabod yn ddiolchgar bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Dymunir diolch yn arbennig i Dr. D. Hughes am ei ffyddlondeb a Mrs Dilys Thomas am ei gofal cariadus am Mrs Taylor.

LLANRUG

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Nos Fawrth, Rhagfyr 4, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr R. Gwynn Davies, Waunfawr yn ymwneud â'i waith tros y blynyddoedd. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr D. Glynne Owen a thalwyd diolch i Mr Davies gan Mrs Inigo Jones a Mr T.W. Thomas. Edrychwn ymlaen am ymweld â Chymdeithas y Waunfawr lonawr 14. Cynhelir cyfarfod ar lonawr 15 – Holi ac Ateb gydag aelodau Cymdeithas Llanrug. Ar lonawr 29 Mr W. Vaughan Jones, Pontllyfni fydd yn ein diddori gyda ffilm a hanes ei daith i Taiwan.

DIOLCH – Cynhaliwyd Noson Goffi yn Festri Pontrhythallt nos Wener, Tachwedd 24 er budd yr Eglwys. Dymuna chwiriorydd yr Eglwys ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at Yr Achos.

YNGWELLA – Da deall fod Mrs Annie Parry, Tai Bryn Coch yn gwella ar ôl yr anffawd ddaeth i'w rhan o dorri ei braich, wedi codwm ar y ffordd.

Y SEINDORF – Ar Ragfyr 1 'roedd y Seindorf ym Mhwlheli yn arwain Siôn Corn o'r orsaf, drwy'r dref, ac yn ôl i Bon Marche. Byddant yng Nghaeathro ar yr ugeinfed o'r mis hwn yn chwarae carolau o amgylch y Goeden Nadolig ar y sgwâr, ac yng Nghaernarfon drwy'r dydd, dydd Sadwrn Rhagfyr 22. Carem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb yn yr ardal, ac i'r rhai o'r tu allan hefyd, am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

MERCHED Y WAWR – Parti Nadolig oedd cyfarfod mis Rhagfyr. Trefnwyd lluniaeth ac adloniant gan yr aelodau eu hunain. Cafwyd noson ddiffr iawn o dan arweiniad y flwydd, Mrs N. Lovatt.

PLAID CYMRU – Nos Iau, Rhagfyr 6, cafwyd noson o ddrama dan nawdd cangen leol Plaid Cymru. Cafwyd perfformiad da o'r ddrama, 'Hwyliau'n Codi' gan Theatr Bara Caws i gynulleidfa werthfawrogol. Ymddiheura'r gangen i aelodau Capel Mawr am fynd ar draws eu Ffair Nadolig ond ni allai'r Cwmni ddod ar noson arall. Estynnwyd yr amser dechrau er mwyn i'r bobl gael mynd i'r Ffair a chael gweld y ddrama. Mae'r gangen yn falch fod y Ffair wedi gwneud elw da, a bu i'r Ddrama gadw ei phen. Yr amcan ydyw adfer i'r pentre yr arferiad o gael drama fel rhan o fywyd y gymdogaeth.

CYMDEITHAS LENYDDOL, Capel Mawr – Nos Iau, Tachwedd 21 cynhaliwyd Noson o Gân dan ofan Mrs M. Jones, Ogwen a Mrs J. Davies, Plas Gwyn. Cafwyd noson

hwyllog ac addysgiadol a phawb yn eu hwyliau gorau. Balch oeddyd o gael cwmni Mrs E. Williams, Tremallt a'i chlywed yn rhoi dau ddatganiad mor hyfryd. Llywyddwyd gan Mr Myrddin Williams, Penterfyn a diolchwyd gan y Parch. W.O. Roberts a Mr J. Wyn Owen, Llain y Delyn.

BEDYDD – Bore Sul, Rhagfyr 2 yn y Capel Mawr bedyddwyd Delyth Wyn, merch fach Mr a Mrs Gwynfor Humphreys, gan y gweinidog y Parch. W.O. Roberts, Anedd Wen.

CYMDEITHAS CHWIRYDD Capel Mawr – Nos Iau, Rhagfyr 6 cynhaliwyd y Ffair Nadolig flynyddol. Daeth cefnogaeth deilwng iawn o bobl yr ardal yno, a bu prysurdeb mawr ar y stondinau. Rhoddwyd y coffi gan Mrs N. Jones, Madryn, Mrs L. Jones, 5 Rhos Rug, Mrs N. Williams, 10 Glanmoelyn, Mrs K. Griffith, 19 Glanmoelyn, Mrs J. Parry, Morannedd, Mrs E. Williams, Tremallt a Mrs D. Jones, Y Fedwen. Wrth y drws yr oedd Mr J. Williams, Gweledfa a Mr J.G. Jones, Gorffwysfa. Diolchwyd i bawb yn yr ardal am eu rhoddion mewn nwyddau ac arian gan y flwydd, Mrs N. Roberts, Anedd Wen. Gwnaed elw sylweddol iawn. Diolch yn fawr.

Y GOBEITHLU – Bu tri chyfarfod. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Wendy Roberts, Nia Lewis, Christine Jordan, Glenda Roberts, Olwen Jones a Susan Morris. Dysgwyd carolau i'r plant gan Mrs Jones, Ogwen a dangoswyd ffilmiau am Y Nadolig Cyntaf gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen, gyda Mr John Williams, Gweledfa yn cynorthwyo. Diweddwyd y cyfarfodydd drwy weddi dan arweiniad y Parch. W.O. Roberts.

PRIDAS – Ar Ragfyr 1, yng Nghapel Glanrhyd priodwyd Mr Eilir Williams, mab Mr a Mrs Ifor Williams, Gwelfryn a Miss Anwen Jones, merch Mr a Mrs R.O. Jones, Tŷ Capel, Tal-y-sarn. Gweinyddwyd gan y Parch. Ronald W. Roberts, Deiniolen.

Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau iddynt.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Eilir Williams ddiolch yn gynnes i berthnasau a chyfeillion am y dymuniadau da a'r anrhegion gwerthfawr a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

YMDDIHEURIAD – Yn yr adroddiad ar weithgareddau'r gangen o Blaid Cymru yn y rhifyn diwethaf dylem fod wedi cyhoeddi mai Mr W.A. Jones a etholwyd yn ohebydd y wasg a bod Mr J.W. Griffith, Mr Aled Greed, Mr Gwyndaf Hughes a Mr Ifan

Parry wedi eu hethol i wasanaethu ar y pwyllgor.

BETWS GARMON

YMRYSON CŴN DEFAID – Cynhaliwyd y cinio blynyddol i aelodau'r pwyllgor yng Nghastell Cidwm nos Sadwrn, Rhagfyr 1. Cafwyd noson ragorol gyda 20 wedi ymgynnull. Cyflwynwyd cwpanau ar eu llwyddiant yn yr ymryson a gynhaliwyd fis Awst diwethaf i Mr Elwyn Griffith, Cae Sgubor a Miss Pat McDonald, Waunfawr gan Mrs Val Davies, Castell Cidwm.

Cyfarchion y tymor oddi wrth




OSMOND W. SHAW

Peiriannydd
Radio a Theledu
& Gwasanaeth Awdio
BWLCH UCHAF
DEINIOLLEN
Ffôn Llanberis 545
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch
cyn 10 o'r gloch

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
Gwsmeriaid Hen a Newydd
oddi wrth
**SIOP
DELEDU
T
CEPAS**
FFORDD YR ORSAF
LLANRUG
(Ffôn Llanberis 205 min nos)

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



**Bwsiau Arfon
LLANRUG**
FFÔN WAUNFAWR 254

NADOLIG LLAWEN
A

BLWYDDYN
NEWYDD
DDA

DYMUNA

**WIL a MYRA
PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
(Ffôn: Waunfawr 353)
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWÍ OLL



STORI ARSWYD

Y CHWIBAN OLAF D. Whiteside Thomas

Bore Sadwrn oedd hi, tua diwedd Ionawr 196.. Cawod ysgafn o eira wedi hanner cuddio noethni'r gaeaf a'r barrug yn crensan dan draed. Cerddai Ifan Jones ar hyd gwely'r hen lein chwarel. Rhyfedd fel yr oedd popeth wedi newid mor fuan. 'Doedd dim blwyddyn er pan godwyd y rheiliau a'u cario i ffwrdd, ac yn awr, roedd yr hen Fam Natur yn dechrau ennill ei thir yn ôl. Ymwniai brwyn pigfain o'r eira lle gynt bu oel injan yn lladd pob tyfiant newydd. Disgynnodd cerrig o'r cloddiau o ddeutu, a lledodd eithin mân a drain mwyar ar draws yr hen lwybr. Roedd y ffos fach a gydredai â'r lein wedi tagu â mân dyfiant a gwely'r hen lein yn fagwra i deulu'r gors bellach: gwlybaniaeth yn magu helyg a hesg, gwernen a gold y gors. Teimlai Ifan Jones ryw chwithdod wrth weld y tyfiant gwyllt yn tagu'r hen lein fach ar agor. Chwarter ei oes yn llau ffos, torri drain a lladd chwyn, ac mewn llai na blwyddyn roedd y cwbl yn ofer.

Suddodd ei droed drwy'r gaenen eira i'r mwd gludiog oddi tano. Damiodd Ifan Jones yn ddistaw. Petai'r lein yn dal ar agor fyddai dim chwarter y gwaith o fynd i lawr o'r Pandy i'r Felin Ucha, ond hefo'r holl ddrain a mieri yma, roedd hi'n blydi niwsans. Cofiai Ifan Jones fel y medrai glirio'r ffos o'r Pandy i'r Felin Ucha mewn bore os oedd tempwr go dda arno. Mygyn a chinio yn yr hen gwt bach dan y goeden ddrain yn y Felin Ucha, ac yna, clirio gweddill y lein i lawr am y Crawia yn y pnawn. Weithiau, mi gâi gwmni yn y cwt, a rhannu mygyn a phaned efo sgotwr yn torri ar draws i'r Rhaead' i droi i lwc am samwn. Roedd yn well ganddo'r darn hwn o'r lein na dim un; roedd hi'n llawer distawach yma na'r rhan o'r Pandy am y Stabla: dim hanner cymaint o fynd a dwad. Am fod yn well ganddo'r darn hwn o'r lein, roedd wedi sylwi'n fwy manwl ar y cloddiau a'r cerrig a'r coed o gwmpas, a gwyddai'n union ble'r oedd y sguthan yn nythu a'r gwningen yn cuddio. Nid nad oedd gnaddo fawr o ddiddordeb ym myd natur, ond fedrai rhywun ddim peidio sylwi rywsut.

Ychydig cyn cyrraedd y Felin Ucha, cododd dwy biden yn sydyn o'i flaen a rhegi'r awyr wrth hedfan i goeden gyfagos. Roedd y ddwy wedi bod yn gloddesta ar gorff sgwarnog a orwedda'i'n llonydd a'i llygad pwl yn sylu'n ddall ar y cymylau eira uwchben. Roedd y gwaed wedi fferru, a rhywun wedi cael pryd da o fwyd cyn i'r piod ddod yno i orffen crafu'r esgyrn. Gwyddai Ifan Jones fod llwynog wedi gwneud ffau rywle yng nghoed y Felin Ucha a daeth i'r canlyniad fod y cadno wedi cael brecwast trwm y bore hwnnw.

Gwthiodd ei ffordd i mewn i goed y Felin Ucha, y llechi a'r brigau mân yn clecian dan ei draed. Tagfa o ddail, brigau crin, llechi a phridd oedd yma bellach, heb fawr ddim o olion y gwaith a fu yma gynt. Gwyddai Ifan Jones am y mân lwybrau fel cefn ei law. Fe ddeuai yma bob dechrau gwanwyn i dorri coed cyll ar gyfer ei ffa dringo, a brigau'r fedw i ddal pys. Dyma'r tro cyntaf iddo fentro i lawr yma yn y gaeaf, ac yr oedd pobman yn edrych yn ddieithr braidd. Dim cwmni trydar adar yn brysur yn chwilio am gymar i nythu; dim siffrwd llygod yn cymowta'n yr hen domenni llechi; dim clecian brigau wrth i'r gwiwerod llwyd neidio o gangen i gangen. Sŵn dim. Distawrwydd. Bron na ellid clywed yr eira yn disgyn.

Draw yn y pellter clywodd Ifan Jones chwiban lleddf. Roedd yn ei atgoffa o rywbeth, ond allai o yn ei fyw feddwl beth.

Gwrandawodd am ennyd, ond distaw oedd pobman, a'r chwiban wedi tewi. Penderfynodd Ifan Jones anghofio'r chwiban, ac aeth ymlaen â'r gwaith y daeth yno i'w wneud; torri coed. Gwyddai fod digon o fonion sych yng nghoed y Felin Ucha, ac fe arbedai gymaint â hynny ar ei stoc glo petai'n llosgi coed y gaeaf hwn.

Dechreuodd Ifan Jones lifio. Brathai'r lli finiog i mewn i'r bonion praff, a rhoddai'r rhuthm a'r sŵn rywfwnhadi Ifan Jones. Rhywle'n y coed gerllaw daeth chwerthiniaid cras Sgrech y Coed. Roeddynt yn nythu yma ers blynyddoedd, ar yr hen goeden ddrain honno a freichiai allan dros y cwt lein. Doedd dim posib i unrhyw greadur arall gyrraedd y nyth; roedd y drain yn llawer rhy drwchus. Doedd dim rhyfedd fod yr hen dderyn yn chwerthin ei chwerthiniaid cras flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Dechreuodd fwrw eira unwaith eto. Plu mawr bras y tro hwn. Daeth chwa o wynt nes gwegian rhai o'r coed a pheri iddynt wichian mewn protest. Roedd Sgrech y Coed wedi darfod chwerthin. Aeth pobman yn berffaith ddistaw ar wahân i'r chwiban lleddf. Roedd y sŵn yn uwch y tro hwn, ac yn nes. Tybiai Ifan Jones fod y sŵn yn dod o gyfeiriad y Felin Isa neu'r Crawia, ond doedd o ddim yn berffaith siŵr. Yn araf dadbaciodd ei sach a dechreuodd lwytho'r coed i mewn iddo. Chwythodd y gwynt yn llawer cryfach, gan luchio'r plu eira blith draphlith rhwng brigau'r coed. Cododd y sach ar ei gefn a dechrau dringo'r hen domen rwbel llechi yn ôl am wely'r lein.

Teimlai ei sach yn drwm a'i ddwylo'n oer, ond gwthiodd yn ôl am adref ar hyd gwely'r lein, a'r eira'n disgyn yn llenni pluog. Fel y dynesai at y Pandy, teimlai Ifan Jones yr oerni'n lapio am ei draed a'i fferau. Aeth ei gam yn fyrrach a byrrach, a theimlai'r llwyth coed yn trymhau. Arhosodd am ennyd i gael ei

wynt ato ac i roi'r sach ar lawr i gael hoe. Clywodd a theimlodd ruthr gwynt cryf o gwmpas ei ysgwyddau. O'r tu cefn iddo daeth chwiban uchel i'w chlywed yn glir uwch twrw'r gwynt.

Wrth gwrs! Roedd Ifan Jones yn adnabod y sŵn yn iawn, ond doedd y chwiban ddim i fod yno rywsut. Roedd ei feddwl yn niwlog, a'r grepach yn cydio 'mhob rhan o'i gorff. Chwiban y trên chwarel! Ond, doedd dim trên ... ac eto'r chwiban ... Troes ei ben yn ôl i edrych i'r cymylau gwyn o eira a gai eu hyrddio o'i gwmpas gan y gwynt gwyllt. Tybiodd iddo weld amlinelliaid tywyll yn gyrru tuag ato allan o'r gwynder a chlywodd y chwiban yn canu'n uwch ac uwch ac ... aeth popeth yn dywyll ar Ifan Jones.

Pan ddechreuodd y tywyllwch dudew ym meddwl Ifan Jones droi'n llwydni, ni allai feddwl beth a ddigwyddodd, ond gwyddai ei fod yn oer drosto i gyd. Ar wahân i lyn cynnes rywle tua gwaelod ei gefn. Roedd y storm eira wedi chwythu'i phlwc a gallai glywed tawelwch llethol o'i gwmpas. Ceisiodd symud ei law tua'r teimlad cynnes, ac wedi ymdrech gallodd deimlo brethyn ei gôt yn wlyb ac yn boeth. Daliodd ei law o flaen ei wyneb, ac yr oedd yn goch. Gwyliodd y gwaed yn drip-dripan ar yr eira gwyn. Trodd ei ben tua'r Pandy ac agorodd ei geg i weiddi, ond ddaeth dim sŵn allan ohoni. Daeth y tywyllwch yn ôl i gymylu ei feddwl. Sylodd i fyny ar hen arwydd rhydyd uwchlaw gwely'r lein. Prin y gallai wenud allan y 'sgrifen arno: 'W H ... I ... ST ... L ... Daeth y tywyllwch olaf cyn iddo orffen gwneud allan y llythyren arall.

Daethpwyd o hyd i gorff Ifan Jones ddau ddiwrnod yn ddiweddarach. Roedd lluwch o eira wedi hanner ei orchuddio ac y oedd rhan uchaf ei gorff wedi rhewi'n gorn. Yn y cwest adroddwyd fod asgwrn ei gefn a'i asennau wedi eu torri 'fel pe baent wedi eu taro gan gerbyd yn teithio'n gyflym'. Doedd neb o deulu'r Pandy wedi gweld dim, na chlywed Ifan Jones yn gweiddi am help, ond adroddodd gŵr y Pandy iddo glywed sŵn chwiban neu gorn 'tebyg iawn i sŵn yr hen drên chwarel pan fyddai'n chwibanu wrth ddynesu at y tŷ 'cw ers talwm'. Gadawyd y ddedfryd yn agored.

"Hoffech Chi Wasanaethu Eich Bro?"

Mae arnom angen teulu i fod yn 'fodryb' ac 'ewythr' i dri bachgen 13, 11 a 10 mlwydd oed sy'n byw yn ardal Deiniolen. Gobeithir y gellir datblygu'r trefniant hwn yn y pen draw i gynnig magwraeth i'r bechgyn. Maent yn byw gyda'u mam ond oherwydd salwch cynyddol efallai mai dirywio a wnaiff ei gallu hi i ofalu am ei phlant.

Rhagwelir y bydd y fodryb a'r ewythr yn cymryd rhan o'r baich o ofalu am y bechgyn oddi ar ysgwyddau'r fam, a disgwylir iddynt gymryd y bechgyn i'w haelwyd dros ambell benwythnos ac yng ngwylliau'r ysgol.

Da o beth fyddai cael teulu Cymraeg, a rhoddir cefnogaeth lawn iddynt gan yr adran hon.

Am fanylion pellach cysyllter â Mr W. Oswyn Rees, Swyddog Rhanbarth, Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarth Arfon, Anecs, Plas y Coed, Porth Penrhyn, Bangor, neu ffonier Bangor 51931.



Pwy 'di'r babis? Hogia'r Wyddfa - ond nid pryn 'di pryn? Os y llwyddwch chi i'w henw Record Hir newydd yr Hogia fel gwobr. Rh pa un: Elwyn, Vivian, Richard, Arwel a M



1



3



4



5

Cystadleuaeth Fawr y Nadolig

el ag y maent heddiw wrth gwrs! Y cwestiwn ydi yn iawn a'ch ymgais ddod o'r het yn gynta cewch wch gynnig arni. Dyma'r enwau - ond pa un ydi yrddin.



Nodwch eu henwau ar ddarn o bapur yn nhrefn y rhifau.

1. _____
2. _____
3. _____
4. _____
5. _____

Gyrrwch y cynigion i'r Golygydd Erthyglau, Gwên y Wawr, Glanffynnon, Llanrug.

BRYNREFAIL

CAROLAU A CHYNGERDD NADOLIG - Mae plant y Gobeithlu wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer eu cyngerdd Nadolig, sydd i'w gynnal nos lau, Rhagfyr 20. Byddant hefyd yn mynd o amgylch y pentref i ganu carolau nos Lun, Rhagfyr 24, gan gychwyn o'r bont am hanner awr wedi pump. Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i ddod ymlaen ac ymuno yn y canu.

CLWB 'REFAIL - Yn Nhŷ Glas ar Dachwedd 27 cafwyd sgwrs a sleidiau gan Mr Jones o Lanfaethlu. Rhoddwyd y te gan Mrs Maxwell a Mrs Owen (Llanberis) a chafwyd noson ddiffr dros ben.

Bu swper blynyddol y clwb yng ngwesty'r Marine yng Nghaernarfon, a rhoddwyd anrheg anhysbys o chwarter o de i bob aelod.

CLWB MAMAU - Mewn cyfarfod yn Nhŷ Glas ar Ragfyr 13 cafwyd sgwrs a sleidiau ar ei daith i Guinea Newydd, gan Mr Jack Baynes, B.E.M., Warden Hafod Meurig. Rhoddwyd y te gan Audrey Roberts a Shirley Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Pat Jones ac fe'i henillwyd gan Helen Roberts.

Bydd Clwb y Mamau a'r Clwb Nofio yn ymuno am eu swper Nadolig yn y Llety ar Ragfyr 19.

CYDYMDEIMLIR - yn ddwys iawn â Mr David Roberts, Pen Dinas Mawr yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

CLWB PEDWAR UGAIN - Enillwyd mis Rhagfyr: Rhagfyr 3: 1. Jennie Hughes; 2. Geraint Morris; 3. Colin Wager. Rhagfyr 10: 1. Betty Owen; 2. Pat Jones; 3. Gwyn Mowl. Rhagfyr 17: 1. John Smith; 2. Audrey Roberts; Gary Jones (Deiniolen). Rhagfyr 25: 1. Carl Hasson; 2. Ken Jones; 3. Pat Mowl. Rhagfyr 30: 1. Sheila Williams; 2. Betty Green; 3. Jennie Roberts.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cafwyd cyfarfod yn Nhŷ Glas nos Fercher, Rhagfyr 5, pryd y daeth aelodau ynghyd i addurno eu cacennau Nadolig dan oruchwyliaeth Mrs Pat Jones, Cae Coch.

DEINIOLEN

YR YSGOL FEITHRIN - Dydd lau, Rhagfyr 13 mwynhaodd plant yr Ysgol Feithrin leol eu parti Nadolig wedi ei drefnu gan y mamau a'r ddwy athrawes.

Daeth Siôn Corn (Mr Iolen Hughes) yno i rannu anrhegion, Mr Ossie Shaw i dynnu lluniau a chafodd y plant wledd ardderchog.

Enillwyd y raffl oedd: 1. Iwan Williams, Hafle (Hamper); 2. Nurse Iona, Bontnewydd (Hamper); 3. Mandy, Caernarfon (Sherry); 4. Mathew Hughes (Cyw lâr); 5. Mrs Price, Hafod Oleu (Planced Babi); 6. Ken, MBZ (Siocled).

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iawn i'r Brownies lleol am eu rhodd at y parti Nadolig ac i bawb a gyfrannodd mewn arian a nwyddau.

Eleni am y tro cyntaf aeth mamau a swyddogion yr Ysgol Feithrin i fwynhau cinio Nadolig yng Ngwesty'r Victoria Llanberis a chafwyd noson ddiffr iawn.

CYNGOR EGLWYSI Deiniolen - Nos Sul, Rhagfyr 23 cynhelir Gwasanaeth o Garolau a Darlleniadau yng Nghapel Disgwylfa am 5.30 o'r gloch. Cymerir rhan gan aelodau eglwysi a sefydliadau'r ardal. Bydd cyfle i'r gynulleidfa ganu carolau i gyfeiliant Band Deiniolen ac organ. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Bore Nadolig cynhelir Gwasanaeth y Cymun yng Nghapel Ebeneser, am 9.30 dan arweiniad y Parch. Albert Wyn Jones.

CEFNYWAUN-DISGWYLFA - Bore Sul Nadolig bydd plant eglwys Cefnywaun yn cyflwyno gwasanaeth Nadolig, gyda charolau, darlleniadau Beiblaidd, a barddoniaeth.

Prynhawn Sul bydd plant Disgwylfa yn cyflwyno Drama'r Geni am 2 o'r gloch. Yn ystod y cyfarfod gweinyddir y Sacrament o Fedydd.

Ar Ionawr 2 bydd dros 80 o blant a rhieni'r ofalaeth yn ymweld â Theatr Gwynedd i weld perfformiad o'r pantomeim 'Mwstwr yn y Clwstwr'.

Yn ddiweddar ffurfiwyd Cymdeithas Pobl Ifanc Cefnywaun. Fel eu gweithgarwch cyntaf mae'r gymdeithas wedi penderfynu prynu organ newydd ar gyfer y capel Eisoës trefnwyd taith gerdded a disgwylir i'r gronfa fod tua £250 c ganlyniad i'r daith. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth. Swyddogion y gymdeithas yw, Llywydd: Y Parch. Trefor Lewis, Ysgrifennydd: Iola Llewelyn, Trysorydd: Mr Dafydd Wyn Williams.

YSGOL GWAUN GYNFI - Derbyniodd wyth o blant o'r ysgol Dystysgrif gan Gyngor Sir Gwynedd am bresenoldeb llawn am y flwyddyn ysgol 1978-79. Yr wyth yw Bryn Jones, Delyth Fôn Williams, Dewi Rees Williams, Elaine Ann Evans, Helen Mair Jones, Sally Brown a Nicola Marzellos. Hon oedd y drydedd Dystysgrif yn olynol i Bryn, mab Mr a Mrs Meirion Jones, Min Afon, Clwt-y-bont. Llonyferchir y plant yn gynnes a dymunir yn dda iddynt i'r dyfodol. Mae'r tri cyntaf yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail erbyn hyn.

Mwynhaodd Adran yr Urdd yn yr ysgol Barti Nadolig a Disgo yn Neuadd yr Ysgol nos Wener, Rhagfyr 7., a mawr yw diolch y plant i'r rhai a fu wrthi mor brysur yn paratoi ar eu cyfer.

Cynhelir Gwasanaeth Carolau Ysgol Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebeneser (A), Deiniolen, nos Wener, Rhagfyr 21 am 7 o'r gloch. Cymerir rhan gan Gôr yr ysgol, nifer o bartion adrodd a chanu, a bydd rhai o'r plant yn darllen o'r Ysgrhythur. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r cyfarfod yma.

CYFARFOD Y CHWIORYDD - Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd nos lau, Rhagfyr 6. Dechreuwyd drwy roi emyn, darlleniad a gweddi gan Mrs Miriam Lewis. Ffarwelwyd â theulu'r Becws a dymunwyd yn dda iddynt yn eu cartref newydd. Dewiswyd swyddogion newydd, sef Llywydd: Mrs Miriam Lewis, Is-lywydd: Mrs H. Rees Owen, Trysorydd: Mrs Marian Williams, Ysgrifennydd: Mrs Nan Owen. Darllenodd y chwiorydd eu hoff emynau a'u darlleniad. Canodd dwy o'r aelodau. Diolchwyd i Mrs Ruth Jones a Mrs Nan Owen am y te. Cydymdeimlwyd â'r aelodau sydd yn wael. Diweddwyd y cyfarfod gyda'r aelodau yn adrodd Gweddi'r Arglwydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Chwefror 7, 1980. Rhoddir y te gan Mrs H. Rees Owen a Mrs Miriam Lewis.

CROESO - i'r pentref aci'r Becws i Mr a Mrs Edgar Jones. Gobeithio y byddant yn ymgartrefu'n hapus yn ein plith.

TAN-Y-COED

CYDYMDEIMLIR - â Mr Eric Morris, Awelfryn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr George Morris, Glanmoelyn.

LLONGYFARCHIADAU - i Enid Wynne, Llety Llwyd ar ennill gwobr arbennig am ei llwyddiant yn Arholiad Iefel O eleni.

GWYLIAU - Ein dymuniadau gorau i Margaret Roberts, Tainewyddion fydd yn mynd ar wyliau i'r Alban yn ystod Gwyliau Nadolig yr Ysgol i ymarfer sgio.

MERCHED Y WAWR - Treuliodd nifer o ferched Tan-y-coed noson ddiffr gyda chyd-aelodau Llanrug a Phonrhythallt o Ferched y Wawr, yn yr Ysgol Gynradd. Parti Nadolig yr Adran ydoedd. Cafwyd eitemau unigol, canu carolau, ac eitemau gan bartion - canu ac actio - noson o chwerthin iach, a gwledd i'r dant oedd y danteithion ar y bwrdd.

Nos Wener, Rhagfyr 14, cafwyd arwerthiant yn festri Tan-y-coed a dymuna'r aelodau ddiolch i bawb a gefnogodd yr ymdrech hon.

BRYSIWCH WELLA - Dymunwn adferiad buan i Mrs M. Wynne, Gelliod a Mr Robert Griffith, Llys Meredydd. Da gweld Mrs Meira Pritchard, Garnedd yn gwella; boed iddi hithau iachâd llwyr a buan.

DIOLCH

Dymuna Christopher Bourne (roedd erthygl amdano yn y rhifyn diwethaf) ddiolch i bawb yn Llanberis sydd wedi bod mor gymwynasgar tuag ato ef a'i deulu yn ystod y blynyddoedd y maent wedi bod yn byw ym Mur Mawr. Diolcha'n arbennig i'r cymdogion a roddodd gymorth iddo gyda'i ddiwydiant crochenwaith. Gwerthfawroga eu caredigrwydd yn fawr.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Gwesty Dolbadarn

Tŷ **Llanberis** Perchennog
Rhydd- Aneuryn
Feddiart FFÔN: LLANBERIS 277 Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth

DANNY & NERYS ROBERTS

Bistro

45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: PADARN 278



**CYFARCHION
NADOLIG
O'R
WAUNFAWR**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ICHWI OLL oddi wrth


JOHN & MAUREEN HANLON a'r Staff

SNOWDONIA PARK HOTEL

Waunfawr

FFÔN: 218

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD 1979



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH

Modurdy PANT WAUN

WAUNFAWR

(JOHN FERRARESE)

GWASANAETH TORRI-LAWR A THRWSIO CEIR
PROFION M.O.T.
TRIN PANELAU ac ati

Ffôn: WAUNFAWR 524
- Hefyd CAERNARFON 5214
pan fydd y modurdy ar gau



CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

T.A. Thomas Ltd.

(ADEILADWYR)

OFFER Tŷ A GARD
YSTORFA Tŷ NEWYDD
WAUNFAWR

Hefyd
Bwydydd, Melysion
a Phapurau Newydd

Ffôn: Waunfawr 276

Nadolig Llawen
a

Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

E. A. & W. WALTER

Llythyrdy WAUNFAWR

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 651

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

SMITHY GARAGE

WAUNFAWR

Ffôn: WAUNFAWR 518

Gwerthwyr, Peirianwyr
ac Atgyweiriwyr Ceir

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)

Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !

EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo



Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !

Cyfarchion yr Ŵyl
oddi wrth
JONES & OWEN



Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth
Ffôn: Waunfawr 239

NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD
DDA i chwi oll
oddi wrth

IEUAN
WILLIAMS

CIGYDD



WAUNFAWR



WAUNFAWR

LLONGYFARCHIADAU - i Miss Delyth Williams, Coed Gwydryn ar lwyddo yn ei harholiadau SEN. Cwblhawyd ei hyfforddiant yn ysbyty St Catherine's Birkenhead.

I Miss Glenda Jones, LIB, Lynfod ar ei hapwyntiad yn gyfreithiwr cynorthwyol yn Adran Weinyddol a chyfreithiol Cyngor Sir Clwyd, yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

I Mr Kevin Wyn Jones, Crud yr Awel ar ei ddyweddian â Miss Bronwen Rees Hughes, 1 Bryn Hyfryd, Penisarwaun.

I Miss Roberts, athrawes yr Hafod ar ei dyweddian â Mr Andrew Boggie o Lan Conwy.

YN YR YSBYTY - Dymunir adferiad buan i Miss Catherine Elin Jones o Dref Eilian sydd yn ysbyty Eryri, Caernarfon.

PROFEDIGAETH - Bu farw Mr Francis Williams, 4 Bryn Golau, yn ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Cydymdeimlir â'i ferch Miss Meira Clarke, ei fab Mr David Clarke Williams, ei frawd Mr W.O. Williams a'r teulu oll.

MERCHED Y WAWR - Diwedd Tachwedd bu'r gangen yn dathlu'r Nadolig yn ngwesty Tanronnen, Beddgelert. Cafwyd noson ddifyr dros ben - llond bol o fwyd blasus a llond bol o chwerthin i'w ddilyn. Enillwyd y botel win, a roddwyd gan Mrs Carys Owen gan Mrs Rhian Ellis ac enillwyd y gacen Nadolig, a wnaethpwyd gan Mrs Eluned Roberts, gan Mrs Llinos Cadwaladr. Enillydd cystadleuaeth y mis, sef llunio cerdyn Nadolig, oedd Mrs Griffiths Bronallt, gyda Mrs Iris Owen yn ail. Diolch i'r llywydd, Mrs M. Austin Jones, am yr anrheg a gafodd pawb dan ei blât, a diolch hefyd i'r ysgrifennydd Mrs Carys Owen am drefnu'r noson.

Pnawn Sadwrn, Rhagfyr 8 cynhaliwyd Ffair Nadolig Merched y Wawr Arfon yng Nghaernarfon. Roedd ein cangen ni yn gyfrifol am y gemau a'r twb lwc a gwnaethom £32.30 tuag at yr ymdrech. Dyfalwyd enw'r ddol, a roddwyd gan Mrs Iris Owen, gan Mrs Olwen Williams, a dyfalwyd pwysau'r gacen a wnaethpwyd gan Mrs Hughes, Llys Meredydd gan Mrs M. Jones, Dalar Deg, Llanrug. Diolch i bawb am eu cyfraniad at y ffair.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 nos iau, Ionawr 24, yn Neuadd yr Eglwys, pryd y bydd Mrs Hughes, Llys Meredydd, yn ein diddori. Yn y cyfamser Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau i gyd.

LLANBERIS

EISTEDDFOD - Nos Wener, Rhagfyr 7 cynhaliwyd Eisteddfod Eglwys Sant Padarn a Sant Peris. 'Roedd y noson yn hynod lwyddiannus, gyda llu mawr o blant yn cystadlu.

PARTION NADOLIG - Bu Sefydliad y Merched yn cynnal eu parti Nadolig yng ngwesty'r Fictoria, ac yn ngwesty Padarn Lake y bu aelodau o'r Clwb Methedig yn mwynhau eu hunain.

GWASANAETH COFFA - Pnawn Sadwrn, Tachwedd 24, yng nghapel Preswylfa trefnwyd cyfarfod Coffa y diweddgar Bob Lloyd Hughes, Southall, Llundain, mab y diweddgar Mr a Mrs R. LI Hughes, Stryd Siarlot, ac yna cafwyd gwasanaeth byr wrth y bedd yn Nant Peris, pryd y claddwyd ei weddillion. Gwasanaethwyd gan y Parch Marcus Robinson.

MARW - Yn Ysbyty'r Parc, Manceinion ar yr 2 o Dachwedd bu farw Mrs Margaret Hutchinson. Merch i'r diweddgar Mr a Mrs J. Roberts, Merddyn Coch, Ceunant. Cydymdeimlwn â'i theulu oll, hefyd ei hunig chwaer, Mrs Mary Thomas, Dôl Eilian.

GENI - Llongyfarchiadau i Douglas a Lyn Ellis, Dôl Elidir ar enedigaeth mab bychan - lan, brawd bach i Mark.

DAMWAIN - Ddechrau'n mis cafodd Mrs Beth Rees Evans, Rhes Minafon, ddamwain ar y ffordd, a thorodd ei braich. Dymunwn wellhad buan iddi.

GWELLHAD BUAN - i David Gartside, Crompton House, ac i Mr Aled Owen, Stryd Siarlot.

Hefyd hyfryd oedd clywed bod Mrs Mary Morris, Ffordd Tŷ Du wedi dychwelyd adref o'r ysbyty yng Nghaernarfon.

TE PARTI - Dydd Llun diwethaf, cynhaliwyd te parti i blant Gobeithlu'r pentref yn festri Capel Coch. Dymunwn ddiolch i'r holl rieni am roi gwledd mor ardderchog i'r plant.

Nos Sul, Rhagfyr 23, cynhelir gwasanaeth Nadolig gan blant Gobeithlu'r pentref yng nghapel Gorffwysfa am 5.30 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU - I Mr Geraint Wyn Jones, 40 Rhesdai Afon am fod yn llwyddiannus yn ei arholiadau gyda'r Gwasanaeth Ambiwylans Metropolitan ym Manceinion. Bu Geraint yn gadlanc gyda'r gwasanaeth Ambiwylans Metropolitan am ddwy flynedd. Fe basiodd ei arholiadau ym mis Tachwedd y flwyddyn hon ac y mae yn awr yn ŵr Ambiwylans proffesiynol yn Eccles. Cafodd Geraint ei addysg yn ysgol Dolbadarn, Llanberis, ac ysgol Brynrefail, Llanrug.

EISTEDDFOD - Sylwais bod genethod Llanberis wedi dod â chlod mawr i'r pentref yn eu llwyddiant yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Enillydd y gadair oedd Rhian Parry, 'Mafeking', ac yn ail 'roedd Ruth Lennon, Plas Tirion. Enillydd y marciau uchaf dros 15: Rhian Owen, Stryd Siarlot. Dan 15: A. Rhianon Pritchard, Madryn, 2. Lynne Jones, Maes Padarn.

Daliwch ati genod!

LLONGYFARCHIADAU - i Gwyneth Parry, Plas Tirion, ar gael ei phenodi yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Bodfeurig, Tregarth.

BRYSIWCH WELLA - Dymunwn adferiad buan i Mrs Hannah Squires, Maes Padarn, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Mangor.

CYFARCHION - Drwy'r Eco hoffwn ddymuno Nadolig llawn a blwyddyn newydd dda i'r pentrefwyr oll. Hefyd dymunaf ddiolch am bob cymorth a gefais i ysgrifennu'r golofn yma yn ystod y flwyddyn. - Siân Tomos (Gohebydd y pentref)

PENISARWAUN

EISTEDDFOD Y PENTREF - Roedd y noson Wasael, a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gynradd, yn llwyddiant diolch i waith caled aelodau'r pwyllgor, a chefnogaeth y pentrefwyr. Mawr yw ein diolch i Mrs Megan Roberts am ei chyfraniad ardderchog a'i chymorth gyda'r carolau. Daeth elw o £58 i goffrau'r Eisteddfod o'r Noson.

I'R DYSGWYR - 'Rydych chi wedi gweithio'n dda ar hyd y tymor, yn siarad. 'Rwan 'rydych chi'n cael gwyliau bach. Cofiwch weithio yn ystod y gwyliau. Siaradwch Gymraeg, ysgrifennwch Gymraeg, darllenwch Gymraeg. Bydd y dosbarth yn ail-ddechrau nos Lun, Ionawr 7. Nadolig llawn a blwyddyn newydd dda i chi oddi wrth eich athrawon.

Geiriau newydd : Yn ystod: *during*; yn ail-ddechrau: *restarting*.

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs G. Jones, 24 Cremlyn (Bethel) ddiolch i bawb am y dymuniadau dda, a'r caredigrwydd a dderbyniodd Dewi tra yn yr ysbyty. Da gennym ddweud ei fod wedi gwella yn dda. Dymuna Dewi a ninnau Nadolig llawn a blwyddyn newydd dda i chwi oll.

YR YSGOL - Yn y Noson Goffi, a gynhaliwyd yn ddiweddgar gwnaed elw o £170. Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cyfraniadau hael.

Erbyn ymddangosiad y rhifyn hwn, byddwn wedi cael Cyngerdd Carolau (bnawn Mercher, Rhagfyr 19) ac wedi bod yn gweld y Pantomeim 'Mwstwr yn y Clwstwr' yn Theatr Gwynedd (nos iau, Rhagfyr 20).

EGLWYS ST. HELEN - Gwasanaeth Nadolig. Cynhelir Cymun Bendigaid am 8 o'r gloch fore dydd Nadolig.

MRS. M.J. ROBERTS, Tai Croesion - Bendithion a chyfarchion i chi Mrs

Roberts ar gyrraedd eich pen-blwydd yn 79 oed. Mae'n anodd coelio eich bod yn 79 wrth eich gweld yn cerdded mor sionc a heini i Lanrug ac yn ôl.

BABAN NEWYDD - Croeso mawr i Martin i'n plith. Dyma frawd bach newydd i Diane, Tony a Marie, 22 Bryntirion.

HELEN OWEN, Tai Brynhyfryd - Balch oeddem o glywed bod Mrs Helen Owen wedi gwella erbyn hyn.

MR NATHAN JONES, Tai Brynhyfryd - Yr oedd yn dda clywed bod Nathan yn well ac yn disgwyl dod adref o'r ysbyty cyn y Nadolig.

MR a MRS JONATHAN JONES - Croeso'n ôl i Carol (8 Bryn Tirion gynt) a'i gŵr i Benisarwaun. Byddant yn trigo yn 21 Bryn Tirion.

MR a MRS S. ROWLANDS - Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs S. Rowlands (Bryntirion) sy'n symud i Fferm Tanycoed i fyw.

MARWOLAETH SYDYN - Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Victor Jones a'r teulu 11 Bryn Tirion ar farwolaeth mam Mrs Gwenda Jones a ddaeth i aros gyda nhw dros yr Wyl.

MISS A. M. WILLIAMS - Fel y daw'r rhifyn hwn o'r Eco o'r wasg bydd Miss Williams yn ymddeol o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Tan-y-coed. Bydd yn rhyfedd iawn hebdi yn yr ysgol. Treuliodd dros ddeng mlynedd ar hugain yma, ac wrth gwrs fe ddysgodd ddwy genhedlaeth o ambell deulu. Yr hyn sy'n sicr yw ei bod wedi rhoi iddynt oll ei hawddgarwch a'i haddfwynder a bod y plant a fu yma wedi cael cychwyn di-ail dan ei gofal.

Mae pawb yn Ysgol Tan-y-coed, yn blant a chydweithwyr, yn dymuno'n dda i Miss Williams.

O EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



Y Parti Dawns buddugol yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail

NADOLIG LLAWEN
a **BLWYDDYN NEWYDD**
DDA

oddi wrth bawb
ym

MODURDY
Whiteways
WAUNFAWR

BYSIAU I'W LLOGI

Ffôn: Waunfawr 226
Caernarfon 3325/6

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

oddi wrth
HUGH EVANS a'r Staff

EVANS VEHICLE
BODY REPAIRS
CLWT-Y-BONT

Ffôn: Llanberis 611

Trwsio tolciau, weldio, spreio,
atgyweirio wedi damwain, ac ati
CEIR AIL-LAW AR WERTH

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD



CYFARCHION

BETHEL

Dymuna

SAM a MARGARET JONES

CEFN FARM

LLANDDEINIOLEN

Ffôn: Y FELINHELI 670282

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb o'u cwsmeriaid a'u ffrindiau.

Diolch am eich cefnogaeth drwy gydol 1979

Pleser fydd eich gwasanaethu eto yn 1980

â Llefrith, Hufen, Wyau a Thatws.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth

BILL ac EILEEN GRIFFITHS

Antiques

Ivy Cottage

BETHEL

Ffôn: Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

Blwyddyn Newydd—Car Newydd

1980



NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
I CHWI OLL

**LLE
ARALL
OND...**

T.R. & S. EVANS

GAREJ MINFFORDD BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 451

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

M. WILLIAMS
BRYN DAIRY
Tŷ'R YSGOL
BETHEL

Ffôn: Y FELINHELI 670417



CYFARCHION Y TYMOR
a
DYMUNIADAU GORAU AM 1976
oddi wrth

WILL a VAL GUY
TREFLYN STORES
BETHEL

Bwydydd, Melysion, Teganau a Diodydd ar gyfer y Nadolig
Y FELINHELI 670 237

TAFARN GORS BACH
LLANDDEINIOLEN

Dymuna
Bob, Mair a'r staff
i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL



Cwestiwn

Be di'r ffordd orau
o symud llwyth o Lanbêr
i Landudno, o Ddeiniolen i
Dundee ac o Fethel i Fanceinion?

Ateb

OWENS TRANSPORT
H.F. OWEN, BRON MEILLION
BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670487

Fe gariwn ni rywbeth i rywle
(bron!)
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i
bawb

Bethel

CLWB Y RHOS - Roedd cyfarfod Rhagfyr o Glwb y Rhos dan ofal Mr Edward Jones, Bryn Banon. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo ar ysbrydion. Roedd ganddo ddwy stori ysbryd lle yr arhosodd i weld beth oedd yr ysbryd a chael eglurhad hollol ddiiniwed i'r 'ysbryd'. Doedd dim eglurhad i'r digwyddiadau rhyfedd yn y Plasdy yn Iwerddon. Cafwyd trafodaeth ddifyr ar ôl y sgwrs a thros baned a baratowyd gan Mr Alwyn Williams, Seion. Diolchwyd i Mr Jones gan Mr Merfyn Hughes.

YR URDD - Mae'n arferiad, ers rhai blynyddoedd bellach, i'r Urdd fynd i Theatr Gwynedd i berfformiad pantomeim blynyddol Cwmni Theatr Cymru. Eleni bydd dau fws yn mynd â'r aelodau i weld Mwstwr yn y Clwstwr nos Sadwrn, Ionawr 5.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yn dilyn y ffair lwyddiannus a gynhaliwyd yn y Neuadd penderfynodd y Sefydliad gyfrannu £25 i'r Neuadd, £25 i'r ysgol Feithrin a £50 i ysgol Pendalar, Carnarfon. Mae Ysgol Pendalar yn casglu arian, ar hyn o bryd, tuag at adeiladu pwll nofio yn yr ysgol

Y NEUADD - Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor y Neuadd nos Wener

DINORWIG

PASIAINT - Nos Sul, Tachwedd 25 perfformiwyd Pasiant yng nghapel Sardis, ar achlysur canmlwyddiant marw'r Parch. John Jones, cyn-weinidog yr eglwys. Ganed ef yn 1821, a bu'n byw y rhan fwyaf o'i oes ym Minffordd. Dechreuodd bregethu yn ddwy ar bymtheg oed, ac yn 1844, ordeiniwyd ef, ac R.D. Roberts, Foel Gron, cefnder iddo, yn gyd-weinidogion yn Sardis. Yno yr arhosodd John Jones, fel gweinidog a phwyswr yn y chwarel, hyd ei farw ar Ragfyr 28, 1879.

Lluniwyd a chynhyrchwyd y Pasiant gan Gwladys Evans, a chwaraewyd rhan John Jones gan John E. Thomas, ei wraig Marsli gan Lona Lewis, ac Ifan ei fab gan Trebor M. Thomas. Chwaraewyd y cymeriadau eraill gan Alice Griffith, Gwilym Jones ac Alun Lewis. Aelodau'r partion adrodd a chanu oedd Dora Jones, Megan Morris, Elizabeth Jones, Eileen Thomas, Medwen Griffith, Betty Jones a Margaret J. Jones. 'Roedd y canu yng ngofal David J. Thomas a'r cyfeilydd oedd Margaret E. Hughes. Ada Thomas a ofalai am y gwisgoedd ac Abram Jones ac Andrew Griffith am y llwyfan. Y cyflwynydd oedd E. Wyn Jones a llywydd y noson y Parch. Ifor L. Williams, y gweinidog.

Rhyw fis ynghynt bu cyd-ddigwyddiad hapus, a hynny trwy gyfrwng 'Eco'r Wyddfa'. Darganfyddodd Mr Henry Morris o Lanfairpwll, Môn, hanesyn a dorwyd ar bapur newydd rhwng tudalennau llyfr a etifeddodd. Perchennog gwreiddiol y llyfr oedd Griffith Ellis, Hafoty, ewythr i John Jones, a goruchwyliwr Chwarel Dinorwig. Daeth Mr Morris i gysylltiad â'r gohebydd yn Ninorwig, ac anfonodd yntau'r neges ymlaen i Sardis. Dyma gynnwys y papur a ddarganfuwyd:

"Nos Sadwrn diwethaf cynhaliwyd cyfarfod yn Sardis, Dinorwig i anrhegu y gweinidog, y Parch. John Jones a phwrs yn cynnwys deg punt, sef cyfraniadau gwirfoddol ieuencyd y lle. Cymerwyd y gadair gan Mr Evan Hughes, Voelgron, yr hwn a agorodd y cyfarfod trwy anechiad byr a phwrpasol. Ar ôl hyn, anerchwyd y

diwethaf.

Yn y pwyllgor cafwyd adroddiad bod y Cyngor Sir wedi penderfynu cynnwys cynllun i orffen gwella'r Neuadd yn 1980-81. Bydd y cynllun yn costio £3,500 a bydd yn rhaid codi £875 yn y pentref. Ar hyn o bryd mae gan y pwyllgor tua £400 yn eu cronfa ac fe benderfynwyd gwneud ymgyrch i godi'r £475 arall yn ystod y misoedd nesaf.

Penderfynwyd i anfon gair o ddiolch i Sefydliad y Merched am eu rhodd o £25 ac eglurwyd y byddai'r £25 yma pan dderbynir grantiau gan y Cyngor Sir yn werth £100 i'r Neuadd.

Aeth y pwyllgor i weld yr ystafelloedd newydd a siomedig iawn oeddynt o weld marciau hyll ar y waliau, ysgrifen ar waliau'r toiledau ac un o'r toiledau wedie'i dorri. Mynegwyd y gobaith y bydd y Neuadd yn cael mwy o barch yn y dyfodol.

SIÔN CORN - Brynhawn dydd Mawrth daeth Siôn Corn ar ei ymweliad blynyddol â the parti Ysgol Sul y Cysegr, a nos Fercher daeth o gwmpas y pentref ar wahoddiad yr Ysgol Feithrin.

Mae Siôn Corn yn gwybod ei ffordd o gwmpas Bethel yn iawn erbyn hyn ac yn gwybod p'le mae pob plentyn yn bwy. Gobeithio y caiff pawb anrheg wrth ei fodd ganddo ar y 25.

cyfarfod gan y boneddwyd canlynol, - y Parch. R.D. Roberts, Tabernacl, Merthyr, (Sardis gynt), Mr Richard Jones, Sardis a Mr Ellis Evans.

"Cyflwynwyd yr anrheg gan Mr David Thomas, Ty'n 'Rardd, a chafwyd cyfarchiad hynod o effeithiol gan y Parch. John Jones wrth gydnabod caredigrwydd y cyfeillion yn ei anrhegu. Yr oedd côr Sardis yn canu darnau rhagorol rhwng pob anechiad, er mawr foddhad i'r gwyddfodolion.

"Ar ôl cyflwyno diolchgarwch i'r llywydd, i Miss Ellis am amryw anrhegion, i'r côr, a'r holl gyfranwyr ymadawodd pawb wedi eu llwyr foddioni."

Er hyn, cyflwynodd Mr Morris, er mawr ddiolch iddo, lyfr Griffith Ellis fel rhodd i Eglwys Sardis.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL - Nos Iau, Tachwedd 29, yn y Ganolfan bu'r Ficer Trefor Jones, Caernarfon yn sgwrsio am hen dref Caernarfon, ac Eglwys Llanbeblig. Mwynhawyd y sgwrs yn fawr. Llywyddwyd gan Mr Hugh Thomas, ef hefyd gyda'r Parch. Ifor L. Williams a dalodd y diolchiadau.

Nos Iau, Rhagfyr 6, yn y Ganolfan cafwyd noson lawen i'r aelodau gan Barti Clychau'r Grug, Llanrug. Cafwyd eitemau mewn canu ac adrodd a sgets ddigri iawn. Cyflwynwyd y parti i'r aelodau gan Mrs Katie L. Hughes. Talodd hi a Mr R.E. Williams ddiolch calonnog i'r Parti.

O'R YSDBYTY - Da croesawu adreff o'r ysbyty Miss Nora Williams, Padarn Stores, y Fachwen.

NOSON GOFFI - Yn y Ganolfan, nos Wener, Tachwedd 30, trefnwyd Noson Goffi gan arweinydd ac aelodau'r Clwb Ieuencyd. Ai'r elw at gysuron Nadolig i'r Pensiynwyr.

DAMWAIN - Cyfarfu Mrs M.E. Jones, Ty'n Fawnog, â damwain i'w hysgwydd yn ei chartref. Aethpwyd â hi i Ysbyty Môn ac Arfon ac wedi triniaeth cafodd ddod adref. Gwellhad buan fo iddi.

YN YR YSDBYTY - Aethpwyd â Mr a Mrs Alun Phillips, 6 Maes Eilian i Ysbyty Môn ac Arfon am driniaeth feddygol. Gwellhad buan iddynt. Anfonir cofion at Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian sydd yn ysbyty Sant Thomas Llundain ers peth amser.

DYMUNA
JERRY & MARGARET
WARDLE

**SWYDDFA'R
POST**
*a Stordy
Cwm-y-glo*

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'w cyfeillion oll

**Cyfarchion Nadolig o
GWM-Y-GLO
a BRYNREFAIL**



Cyfarchion y Tymor
oddi wrth
Y BRODYR MORRIS

**BECWS
GORS BACH**

CWM-Y-GLO
Ffôn Llanberis 430


**BARA DA
YW BARA CWM**



**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**C & D.WAGER
Llythyrdy
BRYNREFAIL**

Ffôn: LLANBERIS 241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

Dymuna
Bill ac Eira

**Gwesty'r
Fricsan**

(Snowdon Hotel)
CWM-Y-GLO
Llanberis 289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'w holl ffrindiau a chwsmeriaid



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

**London
Garage**

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 234



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mrs. Fowler

**Siop Chips
Cwm-y-Glo**

Ffôn Llanberis 514

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Y DIWEDDAR GEORGE MORRIS

SYR

Unwaith eto o fewn ychydig wythnosau dyma fi yn talu teyrnged i un arall o'm haelodau sef Mr George Morris, 18 Glanmoelyn, Llanrug (George Refail), un o aelodau hynaf Clwb Methedig Eryri.

Cymeriad ynddo'i hun oedd George. Rwyf yn cofio George yn dechrau yn y chwarel. Nid oedd ganddo ofn gwaith. Cerddodd y gelltydd o Hafod Owen i Pendiffwys bob bore haf a gaeaf, tywydd mawr neu braf. Gwelech George yn mynd ati i farcio pan oedd yn codi y chwarelwyr ac eraill i'r gwahanol fonciau. Roedd yn un da am ganu, dweud stori a meddai doreth o ddywediadau doniol.

Yn y Clwb roedd yn barod iawn i roi cymorth a gwneud offer i'r methedig. Un o'i hoff donau oedd:

Mi glywaf dyner lais

Yn galw arnaf fi,

I ddod a golchi meiau'i gyd

Yn afon Calfari.

Do fe ddaeth y tyner lais a galw ar George.

E.O. Thomas (Ysg. Myg)
Clwb Methedig Eryri
15 Ffordd Tŷ Du
Llanberis
Ffôn: 324

Atodiad

LLANRUG

UNDEB Y MAMAU – Cynhaliwyd gwasanaeth Carolau Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Mihangel o dan arweiniad y rheithor. Darllenwyd y llithoedd gan Mrs A. Williams, Llys Llywelyn, Mrs S. Jones, 11 Bryn Moelyn, Mrs G. Pierce, Glan'rafon, Mrs D.G. Williams y Rheithordy a chan y Rheithor. Wedi'r gwasanaeth darparwyd lluniaeth ysgafn yn y Rheithordy a'r gwestwagedd oedd Mrs M Spratt a Miss A.C. Jones, Glanllyn. Diolchwyd iddynt gan amryw o'r aelodau.

GWASANAETHAU'R NADOLIG – Bydd Gweinyddiad o'r Cymun Bendigaid am hanner awr wedi un ar ddeg nos Lun, Rhagfyr 24 'Noswyl y Nadolig', yn Eglwys Sant Mihangel a bydd eilwaith wasanaeth y Cymun Bendigaid am chwarter wedi deg fore dydd Nadolig ac am chwarter wedi

un ar ddeg yn Saesneg fore'r Nadolig hefyd. Bydd Pasant y Plant am 3.30 pm. Dydd Sul, 6 Ionawr 1980, dydd Gŵyl Ystwyll.

MARW – Daeth ton o dristwch dros yr ardal o glywed am farw George Morris, 18 Glanmoelyn. Tarawyd ef yn wael yng nghlwb Methedig Eryri a bu farw yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ddeuddydd yn ddiweddarach. Yr oedd yn frodor o Lanrug ac fe'i hadwaenid fel George 'Refail' gan ei gyfoedion gan mai yn yr Efail y ganwyd ac y magwyd ef. Yr oedd yn un o gymeriadau yr ardal ac wedi ei ddonio â hiwmor iach a llais tenor ardderchog. Fe gofia llawer ledled Cymru amdano yn canu ar Raglen y BBC, 'Dewch am Dro'. Yr oedd yn aelod o Eglwys Sant Mihangel a Rheithor y Plwyf a wasanaethai yn ei angladd a chymerwyd rhan hefyd gan y Parch W.O. Roberts, gweinidog y Capel Mawr. Canwyd yr organ gan Miss N. Owen, Glan'rafon. Cynhaliwyd

gwasanaeth Coffa iddo yn Eglwys Sant Mihangel y Sul wedi'r angladd a thalodd y Rheithor deyrnged iddo. Yr organydd yn y gwasanaeth oedd Mr H.T. Morris, Erw Wen. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'i weddw Mrs Buddug Morris, ei ferch a'i fab yng nghyfraith Mr a Mrs Dewi H. Edwards, Llanfairpwll a chyda Mr a Mrs Eric Morris a'r teulu oll yn eu galar. Deallwn y bydd Mrs Morris yn dychwelyd i'w chartref newydd yn Hafan Elan ar ôl gwyliau'r Nadolig. Yn lle blodau fe dderbyniwyd rhoddion at Eglwys Sant Mihangel ac fe ddaeth cyfanswm o £41 i law. Fe ddymuna'r Rheithor a'r Wardeiniaid ddiolch i'r teulu ac i'r cyhoedd am eu cyfraniadau.

RHODD – Derbyniodd Mrs Mary Lloyd Williams Feibl hardd yn rhodd i gydnabod ei gwasanaeth yn Eglwys MC Brynaerau ar Sul y Cadoediad, Tachwedd 11 eleni. Trefnodd Mrs Williams wasanaeth byr ar ôl oedfa'r bore, cafwyd tri munud o

ddistawrwydd a darllenodd Mrs Williams farddoniaeth ei thad Glan Rhyddallt er cof am y bechgyn a gollwyd. Y mae'r Parch W.H. Owen, y cyn-weinidog a'r chwe blaenor wedi arwyddo eu henwau ar y Beibl. Rhoddwyd hefyd lyfr hanes dathlu canmlwyddiant capel presennol Brynaerau i Mrs Williams.

DOSBARTH ADDYSG Y GWEITHWYR – Ymwelwyd â'r Senedd, Tachwedd 28 eleni. Daw hanes llawn am yr ymweliad i Eco'r Wyddfa yn y dyfodol. Y mae disgyblion y dosbarth yn ddiolchgar iawn i'r athro sef Dr Cyril Parry am drefnu'r daith mor fanwl a llwyddiannus. Ac hefyd ein diolch i Mr Dafydd Wigley am ein croesawu yn nrws y senedd, cael tocynnau i ni fynd i weld aelodau Tŷ'r Cyffredin wrth eu gwaith, ac yna cael mynd i Dŷ'r Arglwyddi i wrando ar Raglen y Dydd, ac am iddo ein cyfarwyddo trwy'r dydd a gofalu amdanom.



O'r chwith i'r dde: Llewelyn Hughes; John Rowlands; Jennie May Jones; John G. Jones; Carrie Prys Owen; Cledwyn Williams; Dafydd Wigley AS; J.O. Hughes; Dr Cyril Parry; John Wyn Owen; Mrs Cyril Parry; R.E. Jones; Mary Lloyd Williams; Miss Jackson; Eluned Hughes; Mair Iola Rowlands; Eric Morris; Eirian Morris; K. Watkins; Jean Davies; Oswald Davies.

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27	28	29	30	31	32	33	34	35	36	37
B	I	E	S	U	G	R	I	S	T	Y																										
E	T	R	Y	S	O	R	D	R	U	D																										
T	H	L	N	A	D	O	L	I	G	D	O																									
L	A	W	L	L	A	W	E	N	M	A	E																									
E	W	E	D	I	C	A	M	E	L	T	H																									
H	D	L	O	S																																
E	F	E	N	G	Y	L	R	U	U	N	O																									
N	T	B	L	W	Y	D	D	Y	N																											
D	O	L	N	E	W	Y	D	D	Y	N																										
R	C	O	F	B	D	A																														
E	F	E	L	Y	C	H	U	T																												
F	E	S	T	R	I	N	Y																													

ENW

CROESAIR 36

CYFEIRIAD

Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

AR DRAWS:

2. Y Baban (4.4)
8. Golud Gwerthfawr (6.4)
9. Ateb Cadarnhaol (6.4)
10. "Dod ar fy mhen dy sanctaidd ... (3)
12. "Aros ...r mynyddau mawr." (3)
13. Ar ôl (4)
15. Anifail (5)
17. "Cysgu'n bêr mae Bethl'em ... (4)
18. " ... Gobaith Cymru" (3)
20. "Gwyn ... fyd y gŵr ni rodia ..." (2)
21. " ... tangnefedd, O! rhed dros y byd (6)
22. Cysylltu (3)
25. Tegan (3)

27. Person (3)
29. " ... am y cyfiawn lesu" (3)
31. Arian (4)
32. Dynwared (7)
35. Siôn ... (4)
36. Ysgoldy (6)
37. Diweddydd (5)

I LAWR:

- 1 a 25. Man geni'r lesu (8.4)
3. Oddi ar! (2)
4. Bod! (2)
5. Plisg yd (2)
6. Rhan o lyfr! (7)
7. Daeth y rhain ag anrhegion (1.7.)
8. Anghenus (5)
11. " ... gwawriodd dydd i'w

gofio" (4)

12. Perchenogi (4)
14. "Canys gwnaethost ef ychydig ... na'r angylion" (2)
16. Un o'r anrhegion (3)
19. "A thymestl wynt Tachwedd a gyfyd ei ..." (2)
23. Yn fuan! (3)
24. "Y ...". Papur! (5)
25. Gweler rhif 1.
26. Poen (4)
27. Heb amheuaeth (2.2)
28. Wybren (3)
30. Cwta (3)
33. Rhagenw personol (2)
34. Rhif (2)
35. " ... bach" (2)

Gwobr Arbennig o £5

Mae'r llinellau tew yn dynodi dechrau neu ddiwedd gair.

Llanwch y blychau a amlinellir yn ddu, ac a fydd yn weddill wedi ichwi gwblhau'r croesair, gyda chyfarchion y tymor.

Atebion Croesair 35

AR DRAWS: 1. Calon. 2. Dinam. 8. Ehanga. 9. Ruban. 10. Incwm. 11. Fotio. 12. Tu. 13. Deifiol. 17. T.A.W. 18. Wel. 20. Stiward. 24. Tŷ. 26. Unawd. 27. Ofera. 28. Egin. 29. Nefyn. 30. Dianc. 31. Iriad.

I LAWR: 1. Cornant. 2. Lobscows. 3. Nenfw. 4. Pantri. 5. Daioni. 6. Nico. 7. Mamgu. 14. Enw. 15. For. 16. Lwc mwnci. 19. Lôn Goed. 21. Ieuan. 22. Atalfa. 23. Dadeni. 24. Troed. 25. Hela

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.

Enillydd croesair rhif 35.
Mrs Nan Owen
8 Rhos Efrog
Llanberis

NANT PERIS

GWOBRAU – Daeth nifer o wobrau Eisteddfod Ysgol Brynrefail ac Eisteddfod St Peris a St Padarn i blant yr ardal.

GWAELEDD – Gobeithiwn weld Tony Ellis, Hafan adref o'r ysbyty ym Mangor cyn y Nadolig.

NEWID GWAITH – Dechrau'r flwyddyn bydd wyneb cyfarwydd yn ymddangos yn rheolaidd ar y rhaglen 'Heddiw'. Ar ôl nifer o flynyddoedd fel dirprwy bennaeth Gwersyll yr Urdd, Glanllyn. Penderfynodd Dei Tomos, Bron Wyddfa newid byd; dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei waith newydd.

SYMUD – Ar ôl saith mlynedd yn y Nant cododd Gwasg Gwynedd eu pac a symud i adeilad mwy yng Nghaernarfon. Er ein bod yn dymuno pob llwyddiant iddynt bydd yn chwith gan yr ardalwyr weld eu colli; daethant â rhyw fywyd i'r pentref yn ystod eu harhosiad.

PONTIO – Gadawodd holl draffig y blynyddoedd eu hól ar bont y pentref. Mae'r gwaith o gryfhau'r bont yn mynd yn ei flaen, ond mae dyddiau'r bont arall wedi eu rhifo; yr wythnos hon dechreuwyd gosod sylfeini pont a fydd yn croesi'r afon ar ôl i Bont Stamp ddiflannu dan yr argae.

RÂS LLYN PADARN

Cynhelir y räs dan nawdd Clwb Rhedwyr Eryri. Mae'n agored i bawb dan 18 oed.

Bydd y räs yn cychwyn o Bont yr Amgueddfa am 1.30 p.m. ddydd Iau, Rhagfyr 27, ac hefyd yn gorffen ar y bont. Y pellter o amgylch y llyn yw tua phummilltir a hanner. Bydd gwobrau i'r buddugwyr.

CHWARAEON

YSGOL BRYNREFAIL

SGIO

Yn ystod y mis hwn cynhaliwyd Pencampwriaeth Sgio Gogledd Cymru yng nghanolfan Plas y Brenin. Bu cystadlu brwd ymysg yr ymgeiswyr, ond Ysgol Brynrefail a ddaeth i'r brig gan ennill cwpan y gystadlaeth am yr ail flwyddyn yn olynol. Y disgyblion a oedd yn cynrychioli'r ysgol oedd, Christopher Lloyd, Mandy Tilston, Alice Walton, Martin Williams, Margaret Roberts a Christopher Wager yn nosbarth y plant hŷn. Mary Walton, Zoe Brown, David Glass, Mathew Anthoine, Timothy Lloyd a Robina McCann yn nosbarth y plant iau.

TRIP I STRATFORD-UPON-AVON

Ar Rhagfyr 7 cafodd disgyblion y 6ed a'r 3ed flwyddyn y cyfle o gael ymweld â theatr enwog Stratford-upon-Avon i weld perfformiad 'Cwmni Brenhinol Shakespeare' o'r ddrama Shakespearaid 'Twelfth Night'. Cafwyd diwrnod pleserus a difyr dros ben, ac ymwelodd rhai o'r disgyblion â'r tŷ lle y bu William Shakespeare ei hun yn byw. Trefnwyd y trip gan adran Saesneg yr ysgol, ac aeth Mrs N. Manning a Mrs M. Hughes gyda'r plant.

YR URDD

Mae gweithgareddau'r Urdd wedi cynyddu llawer yn y misoedd diwethaf, ac o'r 17eg hyd y 19eg o'r mis hwn aeth trip wedi ei drefnu gan Dr Prys M. Jones a Mrs N. Manning i fynyddda yn Rhyd-ddu. Cyfle oedd i gael deuddydd pleserus yn dringo'r mynyddoedd a'r llethrau cyfagos.

CYNGERDD NADOLIG

Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig ysgol Brynrefail ar Ragfyr 20. Yr

oedd nifer o wahanol eitemau ar y rhaglen, yn cynnwys unawdau gan ddisgyblion yr ysgol, a charolau cynulleidfaoi gyda cherddorfa'r ysgol. Cafwyd dawnsgreadigol hefyd o'r enw 'Daniel Jass'. Cerdd Negro-Americanaidd gan Vachel Lindsay yw 'Daniel Jass', wedi cael ei haddasu ar gyfer dawnsgreadigol, ac yr oedd yn cael ei pherfformio gan aelodau timau dawnsgreadigol yr ysgol.

PARTI NADOLIG

Ar ddydd Gwener, Rhagfyr 14 cynhaliwyd parti Nadolig y 6ed dosbarth ysgol Brynrefail ar gyfer plant Ysgol Pendalar, Caernarfon. Ymwelodd 49 aelod o'r ysgol â ni, a chafwyd amser da dros ben yng nghanol miri'r recordiau, dawnsgreadigol a chanu. Uchafbwynt y diwrnod i'r plant oedd ymweliad Siôn Corn gydag anrheg i bob un ohonynt. Carwn ddiolch yn fawr i bob un a gyfrannodd ac a gynorthwyodd i wneud y diwrnod yn un bythgofiadwy iddynt.

DISCOS NADOLIG

Cynhaliwyd dau ddisco Nadolig yn yr ysgol ar ddiwedd y tymor, sef un i blant dosbarthiadau 1 a 2, a'r llall i blant dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6.

DR. PRYS MORGAN JONES

Mawr fydd y golled pan fydd Dr Prys M. Jones, yr athro Cemeg, yn gadael yr ysgol ar ddiwedd y tymor hwn. Mae Dr. Prys wedi bod yn athro yn yr ysgol am bum mlynedd bellach, ac y mae wedi bod yn hynod o weithgar ym mhob agwedd o'r Urdd a phob gweithgaredd o fewn yr ysgol. Dymunwn bob lwc iddo ef yn ei ysgol newydd, sef Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr 'Eco'.



Côr Adrodd Gwyrfa.

Y LEMBOS



Grŵp Pop Buddugol.

YSGOL DOLBADARN

Prynhawn dydd Iau, Rhagfyr 13 cafodd plant adran y babanod eu parti Nadolig. Yn ystod y parti ymwelodd Siôn Corn â'r ysgol gan gyflwyno oren i bob plentyn.

Prynhawn dydd Iau, Rhagfyr 20 cafodd plant adran hynaf yr ysgol eu parti Nadolig. Darparwyd y ddwy wledd gan yr athrawon a staff y gegin.

Nos Fawrth, Rhagfyr 18 cynhaliwyd Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau gan blant o adran hynaf yr ysgol, yn Eglwys Sant Padarn. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. Ganon Alun Jones a'r Parch. Marcus Robinson, gyda Mr W. Huxley Thomas wrth yr organ. Cafwyd gwasanaeth graenus a bendithiol dros ben.

Prynhawn dydd Mercher, Rhagfyr 20 ymwelodd rhai o blant yr ysgol, gyda Mrs E. Pierce athrawes, â Phlas Pengwaith i ddiddori'r henoed yno. Mwynhawyd y prynhawn yn fawr gan yr oedolion. Cyflwynwyd cardiau Nadolig iddynt yn ogystal ag anrheg i'r cartref.



David Woolley o Ysgol Pendalar yn derbyn ei anrheg Nadolig gan Siôn Corn.



Rhai o blant Ysgol Pendalar yn mwynhau eu hunain gyda'r 6ed Dosbarth yn y Parti Nadolig.

LLYFRAU NEWYDD

Dyma restr o lyfrau newydd a dderbyniwyd o Wasg y Dref Wen. Asterix yn y Gemau Olympaidd - £2.25 Caredigrwydd Caradog a Storïau Eraill - £1.40

Asterix Ym Mhrydain - £1.25 Gweld y Tu Mewn i Gastell 8 £2.50

Trysor Rackham Goch - £2.60 Ceri - £1.95

Llund hosan werth ei chael y Nadolig yma. Hwyl ar y darllen! Mae rhain ar werth yn eich siopau llyfrau lleol yn awr.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU - RECORDIAU - CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco